Plant wedi’u derbyn ar gyfer paru posibl	2	8	5	2	5	4	0	27
Plant ar restr aros heb eu paru ar hyn o bryd	2	4	1	1	3	3	0	14
Cyfanswm y teuluoedd sydd eu hangen	1	2	1	1	3	2/3	0	11

Ar ddechrau Ebrill penderfynodd dau deulu beidio â mynd ymlaen â pharu posibl ac felly bydd angen dau deulu ychwanegol ar gyfer un plentyn lle mae ansicrwydd ynghylch materion iechyd a grŵp o ddau sibling.

Yn ogystal â hyn, mae dau grŵp o ddau sibling wedi'u hatgyfeirio at y gwasanaeth ond maent yn aros am wrandawriad terfynol a gorchmynion lleoli.

PLANT YN AROS (ar 31 Mawrth 2015)

Awdur -dod Lleol	Cyf.	Dyddiad Geni	SHOBPA	GORCHYMY N LLEOLI	Nifer y pariau posibl a ystyriwyd	SYLWADAU
Conwy	1149 1150	5 mlwydd 9 mis 4 blwydd 10 mis	22/10/14	15/12/14	1	Grŵp o sibliogiaid – lleoliad anaddas
Sir Ddinbych	811 812	5 mlwydd 9 mis 4 blwydd 6 mis	28/03/13	18/04/13	4	Chwilio'n parhau
	1003 1004	3 blwydd 5 mis 2 flwydd 2 fis	19/11/13	03/12/13	6	Chwilio'n parhau – ystyriaethau ymddygiad ac iechyd
Sir y Fflint	1071	1 mlwydd 3 mis	06/05/14	17/06/14	3	Atgyfeiriwyd 01/15. Angen ei leoli y tu allan i ardal GMGC
Gwynedd	1192	10 mis	21/01/15	12/02/15	-	Atgyfeiriad newydd
Wrecsam	622	7 mlwydd 7 mis	02/11/12	13/12/12	20+	Chwilio'n parhau
	1101	3 blwydd 9 mis	29/08/14	26/09/14	1	Chwilio'n parhau
	1191	4 blwydd 11 mis	02/02/15	05/03/15	-	Atgyfeiriad newydd
Ynys Môn	315 316	7 mlwydd 11 mis 5 mlwydd 3 mis	05/07/12	08/08/12	3 4	Grŵp o sibliogiaid. Anghenion Iechyd Penodol
	1183	1 mlwydd 5 mis	15/01/15	11/02/15	-	Atgyfeiriad newydd

Ar 31 Mawrth 2015 roedd 14 o blant ar y rhestr aros am deuluoedd. Heblaw am yr atgyfeiriadau diweddaraf, mae'r rhan fwyaf o'r plant hyn wedi'u gosod ar Gofrestr Mabwysiadu Cymru, wedi'u proffilio mewn diwrnodau Cyfnewidfa Mabwysiadu a hysbysebion wedi'u gosod ar eu cyfer yn Be My Parent. Lle'r oedd pariau posibl wedi'u nodi, nid oedd yr un ohonynt wedi arwain at leoli oherwydd anghenion y plant cysylltiedig. Mewn rhai achosion, roedd mabwysiadwyr a ddarparwyd gan Gofrestr Cymru eisoes yn cael eu hystyried ar gyfer plant eraill.

Roedd y rhestr aros o blant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon yn fyrrach o lawer nag yr oedd mewn blynyddoedd blaenorol. Y rheswm am hyn yw bod mwy o blant wedi'u lleoli yn ystod y flwyddyn a bod llai o atgyfeiriadau wedi'u derbyn.

4. Staffio

Rheolwr Cofrestredig

Rheolwr cofrestredig y Gwasanaeth Mabwysiadu yw Mandy Humphries a benodwyd ym Mehefin 2009. Mae wedi bod yn rheolwr ar y gwasanaeth ers Ebrill 2010. Ymhlith ei chymwysterau y mae B.Add.; Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol; Diploma Anabledd; ILM Lefel 3; Tystysgrif i Raddedigion mewn Rheoli Ansawdd Ymarfer mewn Gofal Cymdeithasol.

Mae'r ddau ddirprwy reolwr yn weithwyr cymdeithasol cymwysedig sydd wedi dilyn hyfforddiant rheoli. Mae Trish Welsh (Dirprwy-Reolwr y Dwyrain) wedi ennill Tystysgrif i Raddedigion mewn Rheoli Ansawdd Ymarfer mewn Gofal Cymdeithasol. Mae Heather Pearson (Dirprwy-Reolwr y Gorllewin) yn cynnal trafodaeth â'r adran hyfforddi ar hyn o bryd i bennu hyfforddiant addas ychwanegol mewn rheoli.

Mae'r gwasanaeth yn cynnwys aelodau staff sydd wedi'u cyflogi'n uniongyrchol gan yr awdurdod cynnal a staff sydd wedi'u secondio i'r gwasanaeth gan y pum awdurdod lleol arall. Cyflogir gweithwyr sesiynol ychwanegol drwy Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a'u lleoli ledled Gogledd Cymru.

Staff sydd wedi gadael:

Gyda golwg ar swyddi parhaol, mae pedwar aelod staff wedi gadael y gwasanaeth:

- **Conwy** – Ymddeolodd dau aelod staff rhan-amser o'r gwasanaeth ym Medi 2015. Llanwyd y swydd a oedd yn wag ers Ebrill 2014 drwy benodiad amser llawn ar 6 Hydref 2014. Mae'r swydd wag bresennol wedi'i hysbysebu a threfnwyd i gynnal cyfweiliadau ar 28 Ebrill 2015.
- **Sir y Fflint** – Ymddeolodd un aelod staff rhan-amser o'r gwasanaeth ym Mawrth 2015. O gyfuno'r swydd â'r swydd ran-amser sy'n wag er Mawrth 2014, mae hyn yn gadael swydd wag ar gyfer un aelod staff amser llawn. Mae'r swydd hon yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd ac mae cyfweiliadau i'w cynnal yn Ebrill 2015.
- **Gwynedd** – Roedd un aelod staff amser llawn yng Ngwynedd wedi gadael y gwasanaeth ym Mai 2014 – llanwyd y swydd hon ar 1 Rhagfyr 2014.

Aelodau Staff Newydd

- Roedd un gweithiwr cymdeithasol wedi derbyn y swydd wag i weithiwr cymdeithasol yng Ngwynedd ar 1 Rhagfyr 2014.
- Roedd un gweithiwr cymdeithasol wedi derbyn y swydd wag i weithiwr cymdeithasol yng Nghonwy ar 6 Hydref 2014.
- Roedd cyn-weithiwr wedi ymgymryd â swydd gweithiwr sesiynol ar 4 Mehefin 2014
- Roedd cyn-weithiwr wedi ymgymryd â swydd gweithiwr sesiynol ac roedd ar gael o 1 Mawrth 2015
- Roedd un gweithiwr sesiynol Cymraeg ei iaith ar gael i weithio yn ardal Ynys Môn/Gwynedd o 15 Ionawr 2015

Nifer presennol y gweithwyr cymdeithasol cyfwerth ag amser llawn yw 9 (ynghyd â 2 swydd wag). Nifer presennol y gweithwyr sesiynol sydd ar gael i asesu yw 6.

Parheir i gynnal cyfarfodydd tîm unwaith y mis yn Bedford Street, y Rhyl. Trafodir materion busnes gweithredol yn sesiwn y bore a materion hyfforddi/datblygu yn y prynhawn. Hyd yn hyn, mae'r sesiynau hyn wedi cynnwys:

- Iselder ar ôl mabwysiadu/codi ymwybyddiaeth o iselder ar ôl mabwysiadu
- Syniadau ac offer tîm 'Your kidding'
- Cynllunio ar gyfer trosglwyddo plant i leoliadau parhaol/Beth i'w wneud ar ôl dweud helô
- Bwyta er mwyn cysur
- Cyfyng-gyngor mam ynghylch cysylltu
- Y pwysigrwydd o fod yn gariadus
- Ymchwil i ddiogelu plant drwy gydweithio'n effeithiol â thadau
- Materion sy'n ymwneud â chyswllt
- Dadansoddi wrth Asesu

Datblygu a Hyfforddi Staff

Hyfforddiant a ddilynwyd gan staff yn y 12 mis diwethaf:

Mae'r holl aelodau staff heblaw un wedi dilyn hyfforddiant ar amddiffyn plant yn y tair blynedd diwethaf. Mae eraill wedi dilyn yr hyfforddiant canlynol:

- Paratoi i fabwysiadu; Ymwybyddiaeth o Anhwylderau Sbectwm Alcohol Ffetws
- Cofnodi profiadau bywyd, lefel ganolraddol – meithrin sgiliau craidd
- Sut i ddelio â sgysiau anodd a heriol. Hyfforddiant ar-lein mewn cysylltiad â Gofal Cwsmeriaid a Sefydlu Corfforaethol
- Panel busnes mabwysiadu, amddiffyn plant, cofnodi profiadau bywyd, gwasanaethau cymdeithasol a lles, hyfforddiant rheoli TDMP
- Ymlyniad, Anhwylderau Sbectwm Alcohol Ffetws a chofnodi profiadau bywyd
- Delio â Sgysiau Anodd, Cwrs BAAF i Weinyddwyr Paneli
- Dadansoddi wrth ysgrifennu adroddiadau – cyflwyno, camddefnyddio sylweddau, PLO ac asesiadau.
- Wynebu Facebook – cofnodi profiadau bywyd
- Recriwtio Mabwysiadwyr – Cwrdd â'r heriau
- Cynhadledd Marchnata Hyfforddiant Ymwybyddiaeth gyda Heart FM
- Ailfeddwl am Ddatblygiad y Plentyn
- Ceir cyflwyniadau a thrafodaethau ar bynciau perthnasol yn sesiynau'r prynhawn mewn cyfarfodydd o'r Tîm

Sylw gan aelod o'r staff:

Hyfforddiant staff – *“Mae'r hyfforddiant arbenigol yn gyfyngedig iawn. Byddai'n well pe byddai GMGC yn cael ei ariannu'n uniongyrchol gan yr Awdurdodau Lleol a fyddai wedyn yn gallu comisiynu'r hyfforddiant sydd ei angen ar gyfer y tîm cyfan”.*

Awdurdod/ Swyddfa	Swydd	Enw	Oriau
----------------------	-------	-----	-------

Prif Swyddfa'r Awdurdod Cynnal: Stryd y Lampint, Wrecsam:	Rheolwr	Mandy Humphries	37 awr
	Gweinyddwr	Larry Groom Sarah Picken	37 awr 28 awr
	Gweithiwr Cymdeithasol	Lesley Davies Helen Kinney	37 awr 37 awr
	Swyddog Hyfforddi	Denise Roberts	32 awr
	Swyddog Recriwtio	Wendy Thomas	37 awr
	Cydlynnydd Cyswllt Gweinyddwr Cyswllt	Frances Williams Clare Pearce	22 awr 28 awr
	Gweinyddwr TG CHARMS	Martin Evans	18.5 awr
	Gweithiwr Cymdeithasol Sesiynol	Pat Fairclough	
Yr Wyddgrug Sir y Fflint	Gweithwyr Cymdeithasol	Bob Proctor Nicola Kernighan Swydd wag	18.5 awr (gorffen Mawrth 2015) 37 awr 18.5 awr (ers Ebrill 2014)
Y Rhyl Sir Ddinbych	Gweithwyr Cymdeithasol	Tracy Roberts Donna Thomas	37 awr 37 awr
Glan-y-Don, Conwy	Dirprwy Reolwr y Dwyrain	Trish Welsh	37 awr
	Gweithwyr Cymdeithasol	Beverley Herrington Barbara Jones Sian Peacock Swydd wag/ Gweithiwr sesiynol asiantaeth	18.5 awr (ymddeol Medi 2014) 18.5 awr (ymddeol Medi 2014) 37 awr (dechrau 6 Hydref 2014)
	Gweithiwr Sesiynol	Morwenna Berry	
Swyddfa'r Sir, Ynys Môn	Gweithwyr Cymdeithasol	Lydia Murphy Carolyn Jones	37 awr 37 awr
	Gweithiwr Sesiynol	Angela Walker	
Penrallt, Gwynedd	Dirprwy-reolwr y Gorllewin	Heather Pearson	37 awr
	Gweithwyr Cymdeithasol	Sue Adams Sara Williams	37 awr (gorffen 31 Mai 2014) 37 awr (dechrau 1 Rhagfyr 2014)
	Gweithiwr Sesiynol	Sian Peacock	37 awr (gorffen 6 Hydref 2014)
	Gweinyddwr	June Owen	18.5 awr (ymddiswyddo Tachwedd 2014).

Salwch Staff: Cofnodwyd cyfanswm o 76 o ddiwrnodau ar gyfer cyfanswm o 13 o aelodau staff. Roedd tri aelod staff wedi cael profedigaeth ar ôl colli perthynas agos yn y cyfnod hwn ac roedd hyn yn gyfrifol am 50 o'r diwrnodau o salwch a gofnodwyd.

AROLWG STAFF

Anfonwyd 25 o holiaduron. Cafwyd 16 o ymatebion drwy Survey Monkey. Roedd yr arolwg yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr sesiynol a gweinyddwyr:-

- roedd 100% yn gallu gweld y datganiad o'r diben, polisiau a threfnau
- roedd 93.75% yn gallu cael gafael ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a Rheoliadau Gwasanaeth Mabwysiadu (Cymru) 2007
- roedd 100% yn teimlo eu bod yn cael cymorth i gyflawni eu rôl gan y Tîm Rheoli.
- roedd 93.33% yn teimlo bod ganddynt linellau atebolrwydd ac adrodd clir yn y gwasanaeth mabwysiadu.
- teimlai 100% fod cyfathrebu effeithiol rhwng y rheolwyr a'r staff.
- roedd 80% o'r ymatebwyr yn cael eu goruchwyllo bob mis.
- cadarnhaodd 80% eu bod yn cael copi wedi'i ddyddio o'u nodiadau goruchwyllo wedi'u llofnodi gan yr aelod staff a'i reolwr
- dywedodd 62.50% eu bod yn cael arfarniad yn rheolaidd, un ai'n chwemisol neu'n flynyddol. Roedd nifer o aelodau staff newydd a rhai staff sesiynol heb gael arfarniad blynyddol. Teimlai un nad oedd y system arfarnu'n fuddiol iawn "*gan nad oes opsiynau ar gael ar gyfer symud ymlaen*".
- dywedodd 73.33% eu bod yn dod i gyfarfodydd staff ac roedd 93.33% o'r rheini'n dod i gyfarfodydd misol.
- dywedodd 60% o staff eu bod yn gallu cael cyngor (gan gynnwys cyngor gan weithwyr proffesiynol eraill) a chwnsela gan gynnwys BAAF, Adoption UK ac After Adoption.
- teimlai 50% eu bod yn gallu cael yr hyfforddiant yr oedd ei angen i'w helpu i gofrestru gyda'r Cyngor Gofal. Dywedodd 42.86% nad oeddent ac roedd 7.14% nad oedd yn gwybod.
- teimlai 62% fod safleoedd y Gwasanaeth Mabwysiadu'n addas i'w diben ac roedd 19% yn teimlo nad oeddent. Gan fod aelodau staff wedi'u lleoli mewn swyddfeydd gwahanol ledled y rhanbarth, mae'r ymatebion yn gymysg. Mae rhai staff yn teimlo'n ynysig iawn ac mae'r mater hwn yn cael sylw.
- roedd 40% o'r farn bod ansawdd y gofal a ddarperir gan y Gwasanaeth Mabwysiadu i blant sy'n derbyn gofal a'u gofalwyr yn Rhagorol, 46.67% ei fod yn Dda, 13.33% ei fod yn Foddhaol, 0% ei fod yn Wael.

Ymhlith y sylwadau a gafwyd:

Materion Rheoli:

"Teimlaf fod y rheolwyr yn wybodus a phrofiadol a'i bod yn hawdd mynd atynt."

"Byddwn yn elwa'n fawr o fod gyda'n gilydd fel tîm" - nid yw'r Bwrdd Partneriaeth yn ystyried yr opsiwn hwn.

"Nid y Rheolwr Llinell yw Rheolwr y Tîm Mabwysiadu, sef yr un rydym yn delio ag ef o ddydd i ddydd".

Gall hyn fod yn bwysig i staff gweinyddol nad ydynt yn cael eu goruchwyllo neu eu harfarnu gan y rheolwyr mabwysiadu

"Rwy'n mwynhau'r cyfarfodydd tîm gan mai'r rhain yw'r unig gyfle i gwrdd â chydweithwyr yn GMGC"

"Yn fy mhrofiad i, mae bob amser yn bosibl cysylltu ag un o'r rheolwyr"

"Teimlaf fod angen cynnwys y camau gweithredu manwl yn y nodiadau goruchwyllo".

"Roedd anghysondeb weithiau yn y cyngor a roddwyd ac nid oeddwn yn ymddiried yn yr adborth bob amser".

Materion Hyfforddi:

"Cyfrifoldeb yr unigolyn yw sicrhau bod yr oriau wedi'u casglu ar gyfer cofrestru"

"Rwy'n gorfod chwilio amdano. Nid yw'r hyfforddiant yn berthnasol bob amser gan fod hyfforddiant ar fabwysiadu'n ddrud"

"Yn gyfyngedig am fod maes Mabwysiadu'n arbenigol. Mae hyfforddiant yn parhau'n gyfrifoldeb i'r awdurdod lleol sy'n fy nghyflogi gan fod y rhan fwyaf o staff wedi'u secondio i'r gwasanaeth"

“Nid oes arian ar gael yn y gyllideb bob amser”

Swyddfeydd:

“Byddai’n well pe bai’r swyddfa ychydig yn fwy. Pe bai mwy o le, byddai’n bosibl cael lle i fyfyrwr”

“Dylid edrych ar hyn o safbwynt daearyddol a dod â’r tîm at ei gilydd yn fwy canolog mewn dwy swyddfa. Drwy wneud hynny, byddai staff yn teimlo eu bod yn cael mwy o gymorth”

“Mae materion iechyd a diogelwch i’w hystyried o ran mynediad at ffenestri” (i’w ailystyried gyda’r rheolwr swyddfa)

Gwella’r Gwasanaeth

“Mae angen canolbwyntio ar wella’r gwasanaeth drwy ddarparu ein gwasanaethau cymorth mabwysiadu ein hunain, h.y. tîm therapiwtig yn GMGC”

“Mae rhai gweithwyr cymdeithasol yn cerdded yr ail filltir wrth leoli plant sy’n derbyn gofal – mae mabwysiadwyr yn teimlo’n fregus yn y cyfnod hwn”

“Mae GMGC yn ceisio gwella safon ac ansawdd gofal”.

Awgrymiadau am welliannau mewn gwahanol feysydd yn y gwasanaeth mabwysiadu

Roedd y rhan fwyaf o’r sylwadau’n cynnwys cyfeiriad at yr angen i ddatblygu rhagor o wasanaethau cymorth ar ôl mabwysiadu, gan gynnwys mynediad i CAMHS; asesiadau cychwynnol drwy CAMHS, hyfforddiant mewn ymyriadau therapiwtig a’u hargaeledd; sgiliau cwnsela wrth weithio gyda theuluoedd mabwysiadol.

“Hyfforddiant ychwanegol i ofalwyr maeth er mwyn symud plant ymlaen” (ar gael drwy gais drwy GMGC)

Roedd lle i wella’r amserlenni ar gyfer asesu a’r broses baru.

“Mae gwaith papur y broses baru’n rhy ailadroddus a choladu gwaith papur i ddibenion y panel”

“Teimlaf fod proses dda iawn gan y gwasanaeth mabwysiadu ar gyfer asesu mabwysiadwyr a’r broses baru.”

“Mae anghysondeb rhwng gwasanaethau cymorth y chwe awdurdod lleol yn gallu achosi anawsterau”

“Mae GMGC yn ceisio datblygu Grwpiau Cymorth Mabwysiadu. Mae’n creu rhwydweithiau cymorth a chymdeithasol anffurfiol. Mae amser staff yn cael ei ddefnyddio’n effeithiol i helpu nifer o fabwysiadwyr mewn amser real yn hytrach na threulio amser gydag unigolion.

Darperir gwybodaeth a hyfforddiant anffurfiol sy’n hybu trafodaeth”.

“Mae nifer mawr o blant yn cael eu lleoli heb unrhyw waith/llyfr cofnodi profiadau bywyd”

Materion allweddol a godwyd y mae angen eu hystyried/datrys:

1. Datblygu Cymorth Mabwysiadu – mae’r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn cynnal is-grŵp ar hyn o bryd sy’n ymdrin â darparu a datblygu cymorth mabwysiadu.
2. Trafodaeth mewn cyfarfodydd tîm ar yr amserlenni ar gyfer asesiadau, y broses baru a dyblygu gwaith papur.
3. Trafodaeth mewn cyfarfodydd rheolwyr am anghysondeb yn y cyngor gan reolwyr a’r pwyntiau gweithredu mewn nodiadau goruchwyllo

YMATEBION GAN WEITHWYR CYMDEITHASOL GOFAL PLANT SY’N YMWNEUD Â MABWYSIADU DRWY GMGC

Anfonwyd holiaduron at 21 o Weithwyr Cymdeithasol Gofal Plant. Cafwyd 4 ymateb.

- mae 100% yn deall pob agwedd ar rôl y Gwasanaeth Mabwysiadu
- mae 100% yn teimlo bod cyfathrebu agored a gonest rhyngddynt a’r Tîm Mabwysiadu
“Mae gweithwyr proffesiynol a rheolwyr GMGC yn gweithio mewn ffordd agored, gefnogol a chydweithredol iawn gyda’r gweithwyr proffesiynol mewn timau eraill”.
- roedd 100% o’r farn bod eu profiadau o weithio ochr yn ochr â’r Tîm Mabwysiadu wrth chwilio am leoliadau mabwysiadu i blant yn rhagorol neu’n dda
- teimlai 100% fod unrhyw bryderon a godwyd gyda’r Tîm Mabwysiadu ynghylch anawsterau mewn lleoliadau’n cael sylw **bob amser**
- eu barn am y cymorth a ddarparwyd gan GMGC wrth gyflwyno gwaith papur ac ymbresenoli mewn Paneli Mabwysiadu oedd 25% Rhagorol; 50% Da; 25% Boddhaol. *“Mae’n dibynnu weithiau ar ba weithiwr mabwysiadu sydd wedi’i ddynddi”*

Y farn gyffredinol am ansawdd y gofal a ddarperir gan fabwysiadwyr a gymeradwywyd gan Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru oedd 50% Rhagorol; 50% Da.

Y farn gyffredinol am ansawdd y gofal a ddarperir gan fabwysiadwyr GMGC oedd 50% Wedi Gwella; 50% Dim Newid

Roedd **75%** wedi cael eu gwahoddi i hyfforddiant a ddarparwyd gan GMGC yn y 12 mis diwethaf.

Roedd **50%** wedi bod mewn sesiynau hyfforddi a ddarparwyd gan GMGC

Sylwadau:-

Hyfforddiant a dderbyniwyd:

“Gwaith cofnodi profiadau bywyd, paratoi plant ar gyfer mabwysiadu”

“Gwaith Cofnodi Profiadau Bywyd – roedd yr hyfforddiant blaenorol gan Intrac o well ansawdd a dysgwyd mwy o sgiliau ar gyfer rhyngweithio â phlant. Fodd bynnag, roedd yr hyfforddiant hwn yn cynnig cynghorion ychwanegol ar lenwi llyfrau cofnodi profiadau bywyd a llythyrau ar gyfer plant pan fyddant yn hŷn (safbwynt gwahanol)”

“Mae gweithwyr proffesiynol a rheolwyr GMGC yn gweithio mewn ffordd agored, gefnogol a chydweithredol iawn gyda’r gweithwyr proffesiynol mewn timau eraill”.

5. Aelodaeth y Paneli Mabwysiadu / Cynghorwyr a Hyfforddi

Mae GMGC yn parhau’n gyfrifol am dri Phanel Mabwysiadu ar y Cyd sy’n cael eu cynnal bob mis ar draws y rhanbarth: Sir y Fflint/Wreccsam, Conwy/Sir Ddinbych a Gwynedd/Ynys Môn.

Mae Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) 2014 a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2014 wedi cyflwyno Rhestr Ganolog o Aelodau Panel a fydd yn lliniaru rhai o’r problemau o ran sicrhau cworwm gan y bydd modd cyfethol aelodau ychwanegol sydd ar y Rhestr Ganolog i’r paneli lle ceir problemau o ran sicrhau cworwm. Bydd hyn yn atal oedi diangen wrth baru plant a chymeradwyo mabwysiadwyr. Mae’r gallu i gyfethol aelodau ychwanegol wedi bod yn fanteisiol eisoes yng Ngogledd Cymru lle mae aelodau o baneli eraill wedi cymryd lle aelodau absennol ar fyr rybudd. Yn ogystal â hyn, bydd y ffaith y caiff “unrhyw ddwy neu ragor o asiantaethau mabwysiadu ffurfio ar y cyd banel mabwysiadu” yn golygu y bydd GMGC yn gallu ystyried cymeradwyo mabwysiadwyr mewn unrhyw banel sydd ar gael os bydd angen yn y dyfodol. Mae’r defnydd o’r Rhestr Ganolog wedi’i ychwanegu at y Polisi Paneli ar y Cyd sydd ar ffurf drafft ar hyn o bryd.

Cynhelir yr holl baneli'n fisol. Roedd angen cynnal tri phanel brys yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r holl baneli wedi cynnal diwrnodau Busnes Panel ac mae aelodau panel wedi'u harfarnu gan ddau banel ar y cyd. Mae arfarniadau'r panel arall wedi'u gohirio ond bwriedir eu cynnal ym Mehefin 2015. Mae'r holl baneli mabwysiadu yn cynnwys nifer priodol o aelodau annibynnol o nifer da o feysydd gan gynnwys oedolion a fabwysiadwyd, mabwysiadwyr, rhieni biolegol, gofalwyr maeth, gweithwyr proffesiynol CAMHS, cynrychiolwyr asiantaethau gwirfoddol yn ogystal â'r aelodau sy'n ofynnol o dan statud h.y. cynghorwyr meddygol, aelodau etholedig, gweithwyr cymdeithasol a chynghorwyr cyfreithiol ac mae pob awdurdod lleol wedi'i gynrychioli'n briodol. Mae swyddi aelodau annibynnol wedi dod yn wag yn ystod rhan olaf y flwyddyn a rhoddir sylw i hyn. Mae'r holl aelodau newydd wedi dilyn y broses recriwtio ofynnol, wedi cael cyfle i arsylwi ar waith y panel, wedi cymryd rhan mewn sesiwn sefydlu gyda chynghorydd y panel ac wedi derbyn deunydd darllen.

Ar ôl cyflwyno'r Rhestr Ganolog ac wedi i nifer o aelodau paneli ymddiswyddo, gosodwyd hysbyseb am aelodau annibynnol yn y papurau newydd lleol. O ganlyniad i hyn, cafwyd 60 o ymholiadau a chyflwynwyd 25 o ffurflenni cais wedyn. Bydd y cyfweiliadau ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi cyrraedd y rhestr fer yn cael eu cynnal yn Ebrill 2015. (Gweler Atodiad 1 am wybodaeth fanwl am holl aelodau'r tri phanel.)

Panel Mabwysiadu ar y Cyd Sir y Fflint a Wrecsam

Ymunodd y Cynghorydd Andy Dunbobbin, aelod etholedig o Gyngor Sir y Fflint, â Phanel Mabwysiadu ar y Cyd Sir y Fflint a Wrecsam yn Ionawr 2015. Roedd Denise Preece wedi ymddiswyddo o fod yn aelod annibynnol o'r panel hwnnw yn Rhagfyr 2014 ar ôl bod yn aelod o'r panel ers ei sefydlu yn 2015. Y Penderfynydd Asiantaeth newydd dros Sir y Fflint yw Peter Robson wedi i Carol Salmon ymddeol yn 2014.

Sylwadau o Adroddiad Cadeirydd Panel Mabwysiadu ar y Cyd Sir y Fflint a Wrecsam

Hon oedd fy mlwyddyn gyntaf yn gadeirydd y Panel Mabwysiadu, a theimlaf fy mod wedi ymgyfarwyddo â'r rôl, heb brofi unrhyw broblemau neu anawsterau o bwys. Mae aelodau'r Panel hefyd wedi dweud fy mod wedi ymgyfarwyddo fwyfwy â'r rôl o'r naill gyfarfod i'r llall.

Mae'n dda nodi bod ansawdd yr adroddiadau o Wrecsam a Sir y Fflint wedi gwella'n gyffredinol. Mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y cynnydd o ran dadansoddi a nodi materion arwyddocaol yn yr adroddiadau. Cafwyd nifer o adroddiadau o ansawdd gwael hefyd lle'r oedd angen rhoi adborth ar rai elfennau i Benderfynwyr yr Awdurdodau Lleol. Roedd yr adroddiadau hyn wedi cael effaith sylweddol ar y panel o ran yr amser yr oedd yn ei dreulio'n trafod materion y gellid bod wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau a cheisio eglurhad arnynt. Y prif broblemau oedd gwallau a diffyg ffeithiau, a diffyg manylion am faterion penodol a oedd wedi'u nodi.

Cafwyd presenoldeb da at ei gilydd ymysg aelodau'r panel, ac yn gyffredinol mae'r panel wedi gweithredu'n dda yn fy marn i. Rydym hefyd wedi cynnal dau banel brys dros y 12 mis diwethaf, a chafwyd presenoldeb da hefyd yn y cyfarfodydd hyn, a alwyd ar fyr rybudd. Mae pob aelod o'r panel wedi bod yn destun adolygiad blynyddol, a'r neges gyffredinol a gafwyd o'r adolygiadau hyn yw bod ansawdd gwaith ac adroddiadau'r panel wedi gwella. Cafwyd hefyd fod y Panel yn canolbwyntio i fwy o raddau ar Gymeradwyo a Pharu, fel bod y cyfarfodydd yn fyrrach. Mae nifer o aelodau'r panel wedi nodi'r angen am hyfforddiant mwy penodol, i'w galluogi i gyfrannu'n well i waith y panel. Mae'r sylwadau hyn yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd, ac mae'n bosibl y darperir hyfforddiant i'r holl baneli yng Ngogledd Cymru.

Rydym wedi cynnal cyfarfodydd busnes lle'r oedd cyfle i ddarparu gwybodaeth am ddatblygiadau cyfredol yng Ngwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru, yn ogystal â darparu hyfforddiant mewn sgiliau Dadansoddi a diweddiadau ar ymchwil gyfreithiol gyfredol sy'n effeithio ar y gwasanaeth. Roedd nifer o aelodau'r Panel Mabwysiadu hefyd wedi cael cyfle i fynd i gynhadledd gyntaf y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, lle'r oeddent yn gallu dysgu am y datblygiadau cenedlaethol, a'r goblygiadau i wasanaethau mwy lleol.

Mae un swydd wag ar y Panel ar hyn o bryd sydd wedi'i hysbysebu ac a fydd yn cael ei llenwi drwy gystadleuaeth agored. Rydym yn rhag-weld y bydd aelodaeth y panel yn gyflawn eto o fewn yr wythnosau nesaf.

I grynhoi, mae'r panel wedi gweithredu'n dda, ac mae pob un o aelodau'r panel hefyd wedi nodi nad oes unrhyw faterion neu bryderon penodol y mae angen rhoi sylw iddynt.

Emyr Owen – Cadeirydd y Panel

Sylwadau gan Gadeirydd Panel Mabwysiadu ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn

Mae panel ar y cyd Gwynedd ac Ynys Môn wedi cael blwyddyn brysur a chynhyrchiol iawn fel y mae'r ystadegau'n dangos. Cafwyd newidiadau mewn personél yn ystod y cyfnod hwnnw ac mae aelod etholedig newydd a chynghorydd cyfreithiol wedi ymuno â ni. Roedd colli'r cynrychiolydd CAMHS yn destun gofid gan fod hyn yn bwysig o ran dangos ymateb a chyfrifoldeb corfforaethol. Mae hyn ynghyd â'r swydd wag flaenorol wedi ein gadael â dwy swydd wag. Rydym yn ddiolchgar i'n cyd-aelodau o baneli GMGC sydd wedi dod i'r adwy o dro i dro er mwyn sicrhau cworwm ac osgoi oedi. Rydym yn parhau i geisio ymdopi â cholli June, gweinyddwr y panel, ac mae gormod o amser ac egni cynghorydd yr asiantaeth yn mynd at dasgau gweinyddol gan gynnwys y gwaith o ddod o hyd i fan cyfarfod addas. Rydym yn ddyledus iawn i Heather a Glesni, yr ysgrifennydd cofnodion sydd, gyda'u parodrwydd arferol, yn hwyluso busnes y panel yn rheolaidd gan wneud gwaith y cadeirydd yn ddymunol a chadarnhaol.

Rydym yn ymdrechu i sefydlu perthynas â'r gweithwyr cymdeithasol sy'n cyflwyno achosion gan geisio sicrhau'r cydbwysedd priodol rhwng craffu a pharch proffesiynol. Rydym wedi canolbwyntio ar baru a recriwtio yn ein cyfarfodydd busnes. Rydym yn croesawu'r datblygiad o ddarparu hyfforddiant paratoi i aelodau'r teulu estynedig ac yn ystyried hyn yn ffordd ragorol o gryfhau'r cymorth i deuluoedd mabwysiadol. Rydym yn parhau i weithio gyda'n gilydd ar draws GMGC ac rydym wedi cychwyn ymgyrch recriwtio er mwyn llenwi swyddi gwag ar y panel a sefydlu'r Gofrestr Ganolog. Mae lansio'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi arwain at gydweithio agosach ledled Cymru ac rydym yn edrych ymlaen at Ddiwrnod Cyfnewidfa Mabwysiadu Cofrestr Mabwysiadu Cymru a gynhelir yng Nghyffordd Llandudno ar 19 Mai 2015.

Non Davies – Cadeirydd y Panel

Panel Mabwysiadu ar y Cyd Conwy a Sir Ddinbych

Sylwadau o Adroddiad Cadeirydd Panel Mabwysiadu ar y Cyd Conwy a Sir Ddinbych 2015

Ni chafwyd unrhyw newid yn aelodaeth panel Conwy/Sir Ddinbych. Penodwyd Penderfynydd Asiantaeth newydd yng Nghonwy ym Mawrth 2014.

Mae'r Panel ar y Cyd yn gweithredu'n dda iawn yn awr ac mae'r holl aelodau'n cydweithio fel tîm. Yn ystod yr adolygiadau blynyddol a gynhaliwyd yn Ebrill 2015, cafwyd sylwadau cadarnhaol iawn gan holl aelodau'r Panel am y cynnydd a gafwyd drwy gydol y flwyddyn.

Ceir amrywiaeth fawr o brofiad proffesiynol a phersonol ymysg aelodau'r Panel sy'n helpu i gyfoethogi trafodaethau a rhoi mwy o allu i'r grŵp graffu ar gynigion a gyflwynir iddynt a sicrhau bod yr asesiadau'n drwyadl, yn deg, yn agored ac yn dryloyw. Roedd yr holl aelodau'n gytûn bod y dogfennau a ddarperir yn parhau i wella a bod y rhan fwyaf o'r papurau'n dod i law yn brydlon yn awr fel bod amser i'w darllen cyn y cyfarfod.

Cafwyd adborth cadarnhaol ac adeiladol am berfformiad y Cadeirydd, Cynghorydd y Panel a'r Cynghorwyr Cyfreithiol a Meddygol. Mae'r cofnodion o safon uchel iawn ac yn rhoi crynodeb clir o'r rhesymau yr oedd y Panel wedi gwneud argymhelliad ac yn nodi unrhyw anghytundeb â'r argymhelliad ymysg aelodau, lle'r oedd yn briodol.

Presenoldeb yn 2014/15

Yn unol â gofynion data GMGC, mae presenoldeb yn cael ei gofnodi bellach ar sail y flwyddyn ariannol (Ebrill i Fawrth) yn hytrach na'r flwyddyn galendr. Cynhaliwyd 11 o gyfarfodydd y Panel rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2015 a dau Gyfarfod Busnes. Roedd presenoldeb holl aelodau'r Panel heblaw dau yn uwch na'r lefel ofynnol o 75% ar gyfer cyfarfodydd Panel a 50% ar gyfer Cyfarfodydd Busnes.

Roedd pedwar aelod panel wedi cyrraedd lefel o 100%; roedd tri wedi cyrraedd 91%. Roedd eraill wedi cyrraedd lefel uwch na'r 75% sy'n ofynnol ac eithrio un Aelod Etholedig nad oedd ond wedi bod yn bresennol mewn 55% o'r cyfarfodydd (oherwydd ymrwymadau teuluol a gwaith awdurdod lleol) ac un Aelod Annibynnol nad oedd ond wedi gallu bod yn bresennol yn nau gyfarfod cyntaf y flwyddyn oherwydd iechyd gwael. Bydd ei henw'n cael ei gynnwys yn Rhestr Ganolog yr Aelodau Annibynnol am mai ei dymuniad, ar ôl ymadfer ar ôl llawdriniaethau, yw parhau i gyfrannu i waith y Panel ac roedd ei phresenoldeb cyn ei salwch ar lefel o 100%.

Cafwyd cworwm yn holl gyfarfodydd Panel ar y Cyd Conwy / Sir Ddinbych ac nid oedd yn rhaid gohirio na chanslo unrhyw gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn.

Sue Roberts (Cadeirydd)

Gweithgor y Paneli ar y Cyd

Mae gweithgor y Paneli ar y Cyd wedi ailmygynnull er mwyn ystyried y ddeddfwriaeth newydd ar y "Rhestr Ganolog" ac mae polisi newydd yn cael ei lunio ar hyn o bryd.

Mae rhestr fanwl o holl aelodau'r Paneli, eu cyfnod yn eu swydd a dyddiadau Arfarnu yn Atodiad 1.

Mae Aelodau'r Paneli'n ymwybodol o'r gofyniad i fynychu o leiaf 75% o gyfarfodydd y paneli. Dim ond dau aelod a oedd heb gydymffurfio â'r gofyniad hwn, un o ganlyniad i iechyd gwael a'r llall o ganlyniad i fater a fydd yn cael ei godi wrth arfarnu.

Roedd 12 Aelod Panel wedi dilyn yr hyfforddiant i Baneli ar 'Trosolwg ar themâu a phrosesau'n ymwneud â mabwysiadu'. Darparwyd hyfforddiant i aelodau o ddau banel ar y cyd ar Ddadansoddi Asesiadau'n Feirniadol; ac roedd 13 o aelodau'r paneli wedi bod yn bresennol yng Nghynhadledd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ar 24 Mawrth 2015.

Ymatebion i Holiaduron Sicrhau Ansawdd gan Aelodau Paneli ac o daflenni sylwadau aelodau paneli ar Weithgarwch Paneli:

Dosbarthwyd 33 o holiaduron, cafwyd 17 o ymatebion (8 Sir y Fflint/Wrecsam; 6 Conwy/Sir Ddinbych; 3 Gwynedd/Ynys Môn)

1. Derbyn dogfennau ar gyfer cyfarfodydd paneli'n brydlon - 58.82% wedi dweud 'bob amser', 41.18% wedi dweud 'gan amlaf'
"Nid oes synnwyr mewn anfon achosion o ddwy ffynhonnell wahanol"
"Mae hyn wedi gwella – mae papurau'n cyrraedd o leiaf 10 diwrnod cyn cyfarfod y Panel"
"Mae papurau wedi bod yn hwyr weithiau neu roedd yn rhaid cael papurau ychwanegol"
"Anaml iawn y ceir oedi"
"Mae'r tîm yn rhoi gwybod i ni os bydd set o bapurau'n cyrraedd yn hwyrach nag eraill"
2. Barn am ansawdd y dogfennau a gyflwynir i'r Panel mewn perthynas â'r gwasanaeth mabwysiadu 35% Rhagorol; 59% Da; 6% Boddhaol.
"Da iawn neu ragorol" *"Mae ceisiadau am ddogfennau ychwanegol yn cael eu hateb bob tro"*
"Mae llawer ohonynt yn rhagorol; weithiau nid ydynt yn ymdrin yn ddigonol â materion penodol"
"Ceir rhai cyflwyniadau rhagorol... mae diffyg dadansoddi yn rhai ohonynt".
"Mae'r gwaith papur wedi gwella at ei gilydd" *"Mae eu hansawdd yn parhau i wella"*
3. Teimlai 93.75% eu bod yn cael gwybodaeth briodol gan Gynghorwyr y Panel am eu cyfrifoldebau yn y broses benderfynu.
4. Barn am ansawdd y gofal a gynigir i Blant a Phobl Ifanc ar sail y dogfennau - 29.41% Rhagorol; 76.47% Da; 5.88% Boddhaol; 5.88 Anfoddhaol
"Weithiau mae CARA yn awgrymu oedi cyn i'r awdurdod lleol ymateb i deuluoedd niweidiol. Mae'r gofal ar ôl achos cyfreithiol cystal ag y gellir ei gynnig gan mwyaf"
"Da iawn at ei gilydd. Weithiau bydd yn ymddangos bod plant wedi aros yn hir cyn cael penderfyniad ar fabwysiadu neu eu bod wedi symud nifer o weithiau ond mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael gofal cyson gan yr un gofawlwr maeth a fydd yn eu symud ymlaen ar gyfer mabwysiadu".
"Os caiff achos ei drosglwyddo ychydig cyn y paru ar gyfer mabwysiadu, mae'n bosibl na fydd y gweithiwr cymdeithasol yn adnabod y plentyn yn dda"
5. Barn am wybodaeth a phrofiad y staff mabwysiadu y mae'n ofynnol iddynt ddod i gyfarfodydd y panel i'w helpu i ystyried ceisiadau, paru ac adolygiadau o fabwysiadwyr: 30% Rhagorol; 65% Da.
"Mae nifer ohonynt yn rhagorol a phrofiadol, weithiau bydd un yn 'foddhaol' yn unig"
"Mae'n amlwg bod lefelau profiad gwahanol ymysg staff"
6. Teimlai 100% eu bod yn gallu mynegi eu barn i'r tîm mabwysiadu am welliannau/datblygiadau yn y panel mabwysiadu a/neu'r gwasanaeth.
"Weithiau byddaf yn teimlo fy mod yn ymatal rhag mynegi barn gan fy mod yn teimlo nad oes croeso i farn annibynnol os yw'n ymddangos yn wahanol i'r hyn sy'n cael ei dderbyn"
7. O'r 12 sydd wedi dilyn hyfforddiant a ddarparwyd gan GMGC dros y flwyddyn ddiwethaf, teimlai 33% ei fod yn rhagorol a 66% ei fod yn dda.
"Mae'r cyfle i hyfforddi ar y cyd rhwng paneli wedi bod yn fuddiol iawn. Byddai'n bosibl cael hyfforddiant ar rai pynciau ar y cyd â Phaneli Maethu"

8. Sylwadau ar Daflenni Ansawdd Aelodau Paneli:

Adroddiadau cyn mabwysiadu –

Wedi'i ysgrifennu'n dda, digon o fewnbwn gan y cwpl

Wedi'i ysgrifennu'n dda iawn, dadansoddi a mewnbwn da

Adroddiad da, wedi'i ysgrifennu'n glir. Llawer o ddadansoddi

Adroddiad clir a da, tystiolaeth/dadansoddi da

6. Gweithgarwch Paneli Mabwysiadu


Mae pob Panel ar y Cyd yn cynllunio i gynnal panel misol ac mae'r holl ddyddiadau'n cael eu pennu ymlaen llaw. Lle'r oedd angen cynnal paneli ychwanegol yn ystod y 12 mis diwethaf, cysylltwyd ag aelodau i gael gwybod a oeddent ar gael. Nid yw hyn wedi peri anhawster yn y gorffennol gan fod aelodau paneli wedi bod yn barod iawn i helpu i sicrhau cworwm.

Gweithgarwch y Paneli, Ebrill 2014–Mawrth 2015

Paneli	Fflint/Wrecs	Conwy/Din	Gwyn/Môn	Cyfanswm
Asesiadau Mabwysiadu	19	17	11	47
Dylid eu Mabwysiadu	0	0	0	0
Paru (nifer y plant)	17 (23)	14 (15)	12 (12)	43 (50)
Gohirio	2	0	1	3
Datgofrestru	2	0	0	2
Cyfanswm	40	31	24	95

Cyflwynwyd cyfanswm o 95 o achosion i'r paneli mabwysiadu yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys 47 o asesiadau mabwysiadu a pharwyd cyfanswm o 50 o blant. Cyfanswm y mabwysiadwyr a gymeradwywyd gan benderfynydd yr asiantaeth oedd 50.

Nifer yr Asesiadau a Phariadau a Gyflwynwyd i Baneli ar y Cyd dros y 3 blynedd diwethaf.



Mae'r graff yn dangos bod nifer yr achosion a gyflwynwyd i bob un o'r tri phanel ar y cyd wedi cynyddu'n raddol, bod nifer yr asesiadau wedi cynyddu (42:40:47) a bod gostyngiad bach yn nifer y plant a gyflwynwyd ar gyfer paru (40:53:50).

Nifer y Paneli ar y Cyd a gynhaliwyd yn ôl blwyddyn.

Paneli ar y Cyd	Sir y Fflint / Wrecsam			Conwy / Sir Ddinbych			Gwynedd / Ynys Môn		
	2012-2013	2013-2014	2014-2015	2012-2013	2013-2014	2014-2015	2012-2013	2013-2014	2014-2015
Nifer y paneli a		12	15	12	10	12	5	11	10

gynhaliwyd	15								
Nifer y paneli a ganslwyd oherwydd diffyg cworwm	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Nifer y paneli a ganslwyd am resymau eraill	0	0	0	0	2	1	0	1	0

Ymatebion i Holiaduron Sicrhau Ansawdd gan fabwysiadwyr a ddaeth i baneli GMGC 2014-15

Detholiad o ymatebion gan fabwysiadwyr a ddaeth i gyfarfod o Banel (Darpar Fabwysiadwyr a Pharu):-

- *Nid yw cyn waethed â'r sôn! Cefais brofiad cadarnhaol iawn. Cadeiryddion rhagorol a phanel cyfeillgar iawn. Yr holiadur yn glir a syml*
- *Byddwn wedi rhoi sgôr o 10 ond roedd y profiad yn dreth ar y nerfau – am resymau amlwg – felly rwy'n rhoi 8*
- *Roeddem yn teimlo'n gysurus iawn gyda'r Panel Cymeradwyo a'r Panel Paru ac yn teimlo mor barod ag y gallem fod. Mae ein gweithiwr cymdeithasol wedi bod yn gefn mawr i ni ac yn dal i fod.*
- *Roedd y panel yn gyfeillgar a chroesawgar iawn. Yr unig adborth rwyf am ei roi yw bod gormod o bobl yn bresennol. Roedd yr ystafell yn eithaf bach hefyd ac mae'n bosibl mai hynny oedd yn creu'r teimlad bod gormod o bobl yno.*
- *Roeddem yn teimlo ein bod yn cael gwrandawriad. Roedd y cadeirydd wedi sicrhau ein bod yn cael gwybod am bopeth a oedd yn mynd ymlaen ac roedd yn ymddangos yn broffesiynol ac ystyriol iawn.*
- *At ei gilydd, roedd yn brofiad cadarnhaol iawn. Roedd y cadeirydd wedi ein gwneud yn gartrefol ar unwaith*
- *Byddai'n braf pe bai te a choffi ar gael. Ystafell breifat i ddisgwyl am benderfyniad y panel*
- *Roedd fy ngweithiwr cymdeithasol yn teimlo nad oedd ymatebion y panel cyn i mi ddod i'r ystafell yn gwbl broffesiynol. Roedd yn braf cymryd rhan.*
- *Roedd y panel yn rhedeg awr yn hwyr. Byddai wedi bod yn well pe bai'r cadeirydd wedi cadw at yr amserlen. Mae'n achosi digon o straen heb yr oedi. Roedd rhai o'r cwestiynau'n anffuddiol, er enghraifft, sut y byddech chi'n ymdopi pe byddai'ch plentyn yn sâl iawn. Byddai rhiant i blentyn biolegol yn ei chael yn anodd ateb y cwestiwn hwnnw mewn ffordd mor ddamcaniaethol a phenagored*

Rhai o'r materion a godwyd:

Mewn un ymateb, cyfeiriwyd at oedi yn ystod cyfarfod y panel am fod achosion wedi rhedeg yn hwyr. Yn anffodus, ni ellir rhag-weld amgylchiadau o'r fath bob amser ond mae amserlen yr agenda wedi'i newid.


Roedd un ymatebydd wedi awgrymu darparu te a choffi i'r rhai sy'n bresennol. Yn anffodus, nid oes cyfleusterau ar gyfer darparu te a choffi mewn rhai o'r canolfannau.

7. Hysbysebu a Marchnata

Gweithgarwch gan y Swyddog Recriwtio ym mhob Awdurdod Lleol, Ebrill 2014– Mawrth 2015


Awdurdod Lleol	Conwy	Sir Ddinbych	Sir y Fflint	Gwynedd	Wrecsam	Ynys Môn	Arall/ONWAS	Cyfanswm
Ymholiadau	30	45	38	27	28	21	7	196
Ffurflenni Ymateb	16	22	17	8	9	10	2	84
Ymweliadau Cychwynnol a Gafwyd	15	15	15	7	9	9	1	71
Ffurflenni Cais a Dderbyniwyd	13	14	14	6	4	8	3	62

Ymholiadau, Ffurflenni Ymateb a Ffurflenni Cais a gafwyd dros y 5 mlynedd diwethaf




Cafodd GMGC y nifer mwyaf erioed o ymholiadau yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Er bod nifer y ffurflenni ymateb wedi gostwng ychydig, mae nifer y ffurflenni cais hefyd yn fwy o lawer nag mewn blynyddoedd blaenorol.

Ymholiadau, Ffurflenni Ymateb a Ffurflenni Cais a gafwyd yn 2014-2015 ym mhob ardal Awdurdod Lleol



Cafwyd y nifer mwyaf o ymholiadau a ffurflenni ymateb yn ardal Sir Ddinbych (45:22:15) a'r ail fwyaf yn ardal Sir y Fflint. Mae nifer y ffurflenni cais a gafwyd ar ôl eu ceisio'n gyfartal rhwng Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint. Gellir defnyddio'r wybodaeth hon yn awr i lunio strategaethau recriwtio ar gyfer y dyfodol ar ôl canfod yr angen i dargedu ardaloedd penodol.

Ffynhonnell Marchnata ar gyfer yr holl ymholiadau rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2015



Cafwyd 55% o'r ymholiadau drwy wefan GMGC a hon yw prif ffynhonnell yr ymholiadau o hyd. Cafwyd 20% ychwanegol drwy wefannau'r awdurdodau lleol. Mae adran TG yr awdurdod cynnal a'n swyddog recriwtio wedi ymgymryd â gwaith sylweddol yn ystod y flwyddyn i ddiweddarau'r wefan. O ganlyniad i'r gwaith diweddarau, mae'r wefan yn ymddangos yn well, yn fwy cyfeillgar a rhyngweithiol ac mae ffrwd Twitter yn rhedeg ochr yn ochr â hi. Mae hefyd yn caniatáu i GMGC ddiweddarau gwybodaeth am ddigwyddiadau GMGC a'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn ôl yr angen.

Gweithgarwch y Swyddog Recriwtio, Ebrill 2014 – Mawrth 2015

- Ymgymrodd â 5 noson 'Gadewch i Ni Ddechrau' a 71 o Ymweliadau Cychwynnol ledled Gogledd Cymru
- Diweddarau a datblygu gwefan GMGC/ sefydlu cyfrif Twitter
- Mynd i gynhadledd recriwtio HEART FM Capital FM a hysbysebu cyfarfodydd
- Rhoi cyfweiliad ar BBC Radio Cymru i godi ymwybyddiaeth o Wythnos Genedlaethol Mabwysiadu. Trefnodd i un o'n mabwysiadwyr gymryd rhan yn y cyfweiliad a rhannu ei brofiad o fabwysiadu.

- Cyfweiliad radio ar Calon FM i sôn am yr angen i ragor o Fabwysiadwyr a Gofalwyr Maeth Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol ddod ymlaen ac am ein digwyddiad yn ystod Wythnos Mabwysiadu a Maethu Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol.
- Aeth i gyfarfod lle'r oedd un o Ddirprwy Weinidogion Cymru yn bresennol ym Mae Colwyn

Stondinau gwybodaeth yn:

- Strafagansa'r Pasg (diwrnod hwyl i'r teulu) yng Ngresffordd, Wrecsam
- Cyfarfod Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol Heddlu Gogledd Cymru (ymbresenoli'n rheolaidd)
- Diwrnod hwyl i'r teulu yn Eglwys Gadeiriol Bangor
- Eisteddfod yr Urdd, y Bala
- Pont gyswllt Swyddfa'r Sir yn yr Wyddgrug am 1 wythnos
- Digwyddiad Balchder Gogledd Cymru
- Digwyddiad Balchder Gogledd Cymru ym Mangor
- Sioe Môn
- Siopau Tesco Wrecsam/ Porthmadog/Caergybi
- Mynd i Seminar BAAF ar Recriwtio Mabwysiadwyr yn Llundain
- Diwrnod Cyfnewidfa yng Nghaerdydd ar 7 Tachwedd

Gweithgareddau eraill:

- Rhannu posteri a phecynnau gwybodaeth – Meddygfeydd, milfeddygfeydd, Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, parciau gwledig, llyfrgelloedd, Gorsaf Awyrlu'r Fali.
- Cydgysylltu'n barhaus ag eglwysi yn Wrecsam i godi ymwybyddiaeth o fabwysiadu a maethu
- Bod yn bresennol yng nghyfarfod Panel Gwynedd ac Ynys Môn a chyflwyno gwybodaeth am recriwtio
- Paratoi ar gyfer Wythnos Mabwysiadu a Maethu Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol 2015 a chyflwyno gwybodaeth yn y digwyddiad yng Nghanolfan Catrin Finch, Prifysgol Glyndŵr.
- Archebu lle mewn digwyddiadau marchnata ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf: y digwyddiadau a archebwyd hyd yma yw Marchnad Babanod a Phlant ar 6 Mehefin, Diwrnod Hwyl i'r Teulu 20 Mehefin, Sioe Môn 11 a 12 Awst
- Trefnu manau cyfarfod, hysbysebu Wythnos Genedlaethol Mabwysiadu a chynnal naw sesiwn gwybodaeth.

Wythnos Genedlaethol Mabwysiadu

Daeth 12 o deuluoedd i'r nosweithiau gwybodaeth a drefnwyd ar gyfer Wythnos Genedlaethol Mabwysiadu ym mis Tachwedd. Cysylltodd chwe theulu ychwanegol â'r gwasanaeth drwy'r wefan yn ystod yr wythnos hon. Eleni canolbwyntiwyd ar ddenu mabwysiadwyr a fydd yn barod i ystyried mabwysiadu grwpiau o frodyr neu chwiorydd a phlant hŷn.

Cynhaliwyd sesiynau gwybodaeth yn yr ardaloedd canlynol:

Caergybi; Llangefni; Pwllheli; Bae Colwyn; y Fflint; yr Wyddgrug; Prestatyn; Wrecsam.

Nifer y Teuluoedd a Ddaeth i Sesiynau Gwybodaeth ledled Gogledd Cymru

CONWY	SIR DDINBYCH	SIR Y FFLINT	GWYNEDD	WRECSAM	YNYS MÔN	Cyfanswm
2	2	2	0	4	2	12

Hysbysebwyd y sesiynau gwybodaeth ar wefan GMGC, gwefannau awdurdodau lleol, gwefan BAAF, y radio, drwy Twitter a thudalennau Facebook rhai o'r awdurdodau lleol. Anfonwyd datganiad i'r wasg i'r Evening Leader gan swyddfa'r wasg Wrecsam. Trefnodd GMGC i un mabwysiadwr a'r swyddog recriwtio gymryd rhan mewn cyfweiliad radio Cymraeg. Cysylltodd ITV â GMGC wedyn a threfnu i gynnal cyfweiliad ychwanegol ar gyfer y rhaglen newyddion ond ni ddilynwyd hyn yn y cyfryngau.

Yn ogystal â hyn, darparodd GMGC dair astudiaeth achos i swyddfa'r wasg y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a ddarparwyd i wahanol wasanaethau cyfryngol. Ar ôl hyn cyhoeddwyd cyfweiliadau â dau o fabwysiadwyr GMGC yn y Daily Post a Golwg.

8. Hyfforddi

Adroddiad ar Weithgarwch Hyfforddi GMGC, Ebrill 2014 – Mawrth 2015

Mis	Cwrs	Gwahodd	Cadarnhau	Presennol
Ebrill	Ffrindiau a pherthnasau'n cefnogi Mabwysiadwyr	40+	24	19
	Ymlyniad, Trawma a Niwrowyddoniaeth	30+	23	17
	Gadewch i ni ddechrau	22	22	22
Mai	Parents Protect	40+	19	14
	Paratoi i fabwysiadu (4 diwrnod)	30	18	12
Mehefin	Hyfforddi Paneli	30+	16	9
	Gadewch i ni ddechrau	17	9	9
Gorffennaf	Paratoi i fabwysiadu (4 diwrnod)	24	11	9
Awst	Anhwyldeira Sbectwm Alcohol Ffetws	100+	25	23
Medi	Gadewch i ni ddechrau	9	8	
	Ymlyniad, Trawma a Niwrowyddoniaeth	30+	20	16
	Ffrindiau a pherthnasau'n cefnogi Mabwysiadwyr	30+	20	16
	Parents Protect	30+	23	23
Hydref	Ymlyniad, Trawma a Niwrowyddoniaeth	30+	15	14
	Ffrindiau a pherthnasau'n cefnogi Mabwysiadwyr	40+	23	19
	Paratoi i fabwysiadu (4 diwrnod)	30	12	11
Tachwedd	Gadewch i ni ddechrau	11	11	11
	Cyflwyniad Emyr Owen 'Beyond PLO – Critical Thinking Analysis'	20	18	18
	Paratoi i fabwysiadu (4 diwrnod)	15	12	11
	Mabwysiadwyr yr Ail Dro	7	7	7
Rhagfyr	Aelodau Panel Gwynedd– proses cysylltu a pharu			16
	Gadewch i ni ddechrau	6	5	5
	Aduniad y Nadolig	50	21	15
Ionawr 2015	Ffrindiau a pherthnasau'n cefnogi Mabwysiadwyr	50	29	23
	Paratoi i fabwysiadu (4 diwrnod)	25	25	25
	Ymlyniad, Trawma a Niwrowyddoniaeth	30	22	13
	Parents Protect	30	14	11
Chwefror	Gadewch i ni ddechrau	14	14	14
March	Anhwyldeira Sbectwm Alcohol Ffetws	30	18	14
	Paratoi i fabwysiadu (4 diwrnod)	25	19	19
	Symud plant ymlaen at fabwysiadu	25	23	16
	Ar ôl y gorchymyn lleoli – cyflwyniad i Ynadon Wreccsam a Sir y Fflint	30	18	18

Mae 87 o fabwysiadwyr wedi dilyn hyfforddiant Cyn Cymeradwyo dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n ymddangos bod y niferoedd yn y cyrsiau cyntaf yn is o lawer na'r rheini ar ddiwedd y flwyddyn. Gwahoddwyd yr un nifer o fabwysiadwyr i bob un o'r cyrsiau, ond roedd nifer sylweddol wedi dewis gohirio oherwydd gwyliau, y Nadolig ac ymrwymadau gwaith eraill fel bod mwy'n bresennol ym misoedd Ionawr a Mawrth 2015.

Er mwyn gwerthuso'r cyrsiau, gofynnwyd i'r mabwysiadwyr:

"I ba raddau yr oedd y cwrs yn cwrdd â'ch disgwiliadau neu anghenion ym mhob adran?"

Y sgorau cyfartalog ar gyfer yr holl adrannau ar ôl cynnal y chwe chwrs oedd: 87% Yn llwyr; 11% Da; 2% Gweddol

Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau'n ymwneud â'r un themâu:

"Hwn oedd un o'r cyrsiau gorau i mi fod ynddo erioed. Defnydd rhagorol o waith addysgu grŵp a myfyrio unigol. Roedd digon o gyfle i ofyn cwestiynau ac ymchwilio i faterion penodol".

"Da iawn. Gwybodaeth ragorol. Roeddwn yn gallu gofyn cwestiynau heb deimlo'n swil neu'n wirion. Cwrs dwys iawn ond roedd Denise wedi ein gwneud yn gartrefol a'n helpu ym mhob agwedd".

Ni chodwyd unrhyw faterion o bwys ac ni theimlwyd bod angen gwneud unrhyw argymhellion pellach ar gyfer newid.

Cafwyd derbyniad da hefyd i'r hyfforddiant i ffrindiau a pherthnasau a chafwyd sgorau tebyg:

"Rhagorol!! Credaf y dylai pob rhiant newydd gael ei baratoi drwy ddysgu sgiliau rhianta. Ffordd fuddiol iawn o dreulio dydd Sul".

Rhodddwyd sgorau uchel iawn ar gyfer yr holl gyrsiau eraill ac ni nodwyd unrhyw faterion o bwys.

Mae'r Swyddog Hyfforddi yn llunio, yn trefnu ac yn cyflwyno'r holl ddigwyddiadau hyfforddi uchod i fabwysiadwyr heblaw am Parents Protect sy'n cael ei ddarparu'n rhad ac am ddim gan Stop It Now Wales. Ar hyn o bryd mae'r Swyddog Hyfforddi yn datblygu rhaglen Rhianta y gellir ei darparu drwy fodiwlau i fabwysiadwyr cyn ac ar ôl lleoli plant.

9. Plant

Nifer y Plant a Atgyfeiriwyd /Parwyd/Lleolwyd/Mabwysiadwyd ym mhob Awdurdod Lleol, Ebrill 2014- Mawrth 2015

	Conwy	Dinb.	Fflint	Gwyn.	Wrecs.	Ynys Môn	Cyfan- swm
Nifer y plant a atgyfeiriwyd	8	6	8	7	10	5	44
Nifer y plant a barwyd yn y panel	8	7	9	10	14	2	50
Nifer y plant a leolwyd ar gyfer mabwysiadu	8	7	16	8	13	3	55
Nifer y plant a fabwysiadwyd	8	7	8	5	13	7	48

Lleoli Plant gydag asiantaethau eraill y tu allan i GMGC

O'r 55 o blant a leolwyd eleni, roedd wyth o blant (dau grŵp o ddau sibling a dau blentyn unigol) wedi'u lleoli gyda theuluoedd a oedd heb eu cymeradwyo gan GMGC. Roedd hyn yn cynnwys un plentyn o Sir Ddinbych yr oedd ei leoliad wedi methu wedyn (mae'r plentyn hwn wedi'i baru bellach ag un o deuluoedd GMGC); tri phlentyn o Sir y Fflint a grŵp o ddau sibling o Wrecsam.

Cafwyd pedwar hysbysiad oddi wrth asiantaethau eraill am blant a oedd wedi'u lleoli gyda mabwysiadwyr yng Ngogledd Cymru.

Nifer y Plant a Atgyfeiriwyd, a Dynnwyd yn Ôl a'r Rheswm dros eu Tynnu'n Ôl dros y 4 blynedd diwethaf

Blwyddyn	Cyfanswm a Atgyfeiriwyd	Cyfanswm a Dynnwyd yn Ôl	Rhesymau dros Dynnu'n Ôl				
			Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig	Gofal gan Berthynas	LTF	Dychwelyd at riant biolegol	Marw
2011-12	59	17	5	0	9	2	1
2012-13	72	9	0	0	8	1	0
2013-14	66	6	0	2	1	2	1
2014-15	44	2	0	1	0	1	0

Tynnwyd dau blentyn yn ôl: penderfynodd un fam beidio ag ildio ei baban ac roedd ail blentyn wedi symud i gael gofal gan berthynas.


Sefyllfa Bresennol y Plant a Atgyfeiriwyd, Ebrill 2014 – Mawrth 2015

Blwyddyn	Cyfanswm	Sefyllfa Bresennol						
		Ar gael	Wedi'i baru neu ei gadw ar gyfer cysylltiad	Wedi'i leoli	Wedi'i fabwys-iadu	Yn aros am Orchymyn Lleoli	Wedi'i atal/Asiantaeth	Tynnu'n ôl
2014-15	44	5	20	13	1	2	1	2

O'r 44 o blant a atgyfeiriwyd i'r gwasanaeth eleni, dim ond pum plentyn a oedd heb gysylltiadau posibl wedi'u nodi ar eu cyfer. Roedd un plentyn heb fynd ymlaen i'w leoliad yn ystod y cyfnod cyflwyno ond mae wedi'i baru a'i leoli gyda theulu arall ers hynny. Yn ogystal â hyn, roedd naw plentyn yr oedd y gwasanaeth wedi'i hysbysu amdanynt cyn Ebrill 2014 a oedd yn parhau i aros am leoliad. Roedd y rhain yn bedwar grŵp o ddau sibling ac un plentyn unigol 7+ mlwydd oed.

O'r 14 o blant a oedd yn aros am bariadau ar ddiwedd y flwyddyn, darparwyd cysylltiadau posibl ar gyfer chwe phlentyn ychwanegol yn y ddau fis diwethaf.


Nifer y Plant a Gafodd eu Hatgyfeirio/Lleoli a'u Mabwysiadu rhwng Ebrill 2011 a Mawrth 2015



Gwelwyd gostyngiad sylweddol (34%) yn y flwyddyn hon yn nifer y plant a atgyfeiriwyd i'r gwasanaeth. Mae nifer y plant a leolwyd wedi aros yn weddol sefydlog ac mae nifer y plant a fabwysiadwyd wedi codi ychydig at y nifer mwyaf a gofnodwyd o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.


Cymharu Rhywedd y Plant a Leolwyd i'w Mabwysiadu

2010-11 lleolwyd 16 o fechgyn 17 o ferched (29)	(11 lleoliad y tu allan i GMGC)
2011-12 lleolwyd 25 o fechgyn 20 o ferched (45)	(4 lleoliad y tu allan i GMGC)
2012-13 lleolwyd 18 o fechgyn 16 o ferched (34)	(pob lleoliad o fewn GMGC)
2013-14 lleolwyd 22 o fechgyn 35 o ferched (57)	(2 leoliad unigol y tu allan i GMGC)
2014-15 lleolwyd 27 o fechgyn 28 o ferched (55)	(4 lleoliad (6 o blant) y tu allan i GMGC)



Cafodd GMGC 24 o atgyfeiriadau ar gyfer bechgyn a 20 o atgyfeiriadau ar gyfer merched yn y flwyddyn ariannol hon. Ar ôl y duedd a welwyd y flwyddyn ddiwethaf i ffafrio merched mewn ceisiadau, mae GMGC wedi annog mabwysiadwyr i roi llai o bwys ar bennu rhyw'r plentyn wrth ystyried eu dewisiadau o dan y meini prawf paru. Mae'r graff yn dangos bod mwy o gydbwysedd rhwng y rhywiau yn y lleoliadau yn ystod y flwyddyn ariannol hon.


O'r 14 o blant a oedd yn aros am deuluoedd ar ddiwedd y flwyddyn, roedd 11 yn fechgyn, y rhan fwyaf ohonynt mewn grŵp o sibliogiaid ac nid oedd ond 3 o ferched.



Mae'r graff yn dangos bod nifer y plant a oedd rhwng 0-3 blwydd oed ar ddyddiad penderfyniad Penderfynydd yr Asiantaeth y dylid eu mabwysiadu wedi gostwng dros y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae hyn yn ganran gymharol uchel o hyd (86%) o gyfanswm y plant. Mae ychydig yn is na'r flwyddyn ddiwethaf (90%) ac yn uwch nag yn 2012-13 (76%).

Mae'r graff isod yn dangos patrwm tebyg ar gyfer oedran plant ar ddyddiad y Gorchymyn Lleoli.

Oedran Plant ar Ddyddiad y Gorchymyn Lleoli dros y 3 blynedd diwethaf



Oedran Plant ar Ddyddiad y Gorchymyn Lleoli dros y 5 mlynedd diwethaf

Mae nifer y plant a leolwyd o dan ddwy oed wedi amrywio dros y 5 mlynedd diwethaf a rhagwelir y bydd hyn yn digwydd eto y flwyddyn nesaf oherwydd nifer y plant ifanc iawn a atgyfeiriwyd i'r gwasanaeth y flwyddyn hon. Mae'r graff yn dangos bod gostyngiad pendant yn nifer y plant o dan ddwy flwydd oed a leolwyd yn 2012-13 a'r flwyddyn ariannol hon. Mae'n bosibl bod hyn yn ganlyniad i oedi yn yr achosion llys yn y blynnyddoedd blaenorol yn ogystal â gostyngiad cyffredinol yn y niferoedd a atgyfeiriwyd.

Nifer y Plant a Fabwysiadwyd gan Gyn-Ofalwyr Maeth neu'r tu allan i Ranbarth GMGC

	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15
Nifer y plant a fabwysiadwyd	21	28	36	46	48

Nifer y plant a fabwysiadwyd gan gyn-ofalwyr maeth	0	1	1	2	4
Plant a leolwyd gyda mabwysiadwyr GMGC o Asiantaethau eraill	4	4	0	3	0
Plant a leolwyd y tu allan i ranbarth GMGC (pob un o'r mabwysiadwyr wedi'i gymeradwyo gan GMGC)	11	4	0	2	5


Mae pum gofalwr maeth ychwanegol yn cael eu hasesu fel mabwysiadwyr posibl i blant sydd eisoes wedi'u lleoli yn eu gofal. Mae angen ystyried a oes angen asesiadau PAR llawn ar gyfer y gofalwyr maeth hyn neu a ddylid annog neu gynghori'r gofalwyr maeth i gyflwyno eu cais eu hunain am orchymyn mabwysiadu os yw'r plentyn yn y lleoliad ers mwy na 12 mis, yn unol â deddfwriaeth. Mae gwahanol safbwyntiau wedi'u cyflwyno i GMGC gan wahanol gynghorwyr cyfreithiol ar draws y rhanbarth ac mae hyn yn arwain at anghysondeb i ofalwyr maeth mewn gwahanol asiantaethau ledled y rhanbarth.

10. Mabwysiadwyr

Awdurdod Lleol	Conwy	Din.	Fflint	Gwyn.	Wrecsam	Ynys Môn	Arall	Cyfan -swm
Ymholiadau	30	45	38	27	28	21	7	196
Ffurflenni Ymateb	16	22	17	8	9	10	2	84
Cynnal Ymweliadau Cychwynnol	15	15	15	7	9	9	1	71
Ffurflenni Cais	13	14	14	6	4	8	3	62
Cwblhau Asesiadau Mabwysiadu	9	8	13	6	7	4	5	47
Ymholiadau am Fabwysiadu ag Efen Dramor	0	1	0	0	0	0	0	0


Roedd 42% o'r ymholiadau a gafwyd wedi arwain at gyflwyno Ffurflenni Ymateb. Mae hon yn gymhareb sylweddol a gallai awgrymu bod y sylw yn y cyfryngau i'r gwasanaeth mabwysiadu a'r Gwasanaeth Cenedlaethol wedi codi ymwybyddiaeth gan arwain pobl i wneud ymholiadau. Er gwaethaf y gostyngiad sylweddol rhwng nifer yr ymholiadau a nifer y ffurflenni ymateb, roedd y nifer o'r rhain a arweiniodd at hyfforddi a chyflwyno ffurflenni cais yn uwch nag mewn blynyddoedd blaenorol.

Mabwysiadwyr a Gymeradwywyd, Ebrill 2010 – Mawrth 2015




Cafwyd cynnydd o 32% yn nifer y mabwysiadwyr a gymeradwywyd yn y flwyddyn ariannol hon o'i chymharu â'r flwyddyn ddiwethaf.

Nifer y Lleoliadau a Gynigiwyd gan Fabwysiadwyr Cymeradwyedig yn ôl Oedran Uchaf y Plentyn dros y 3 blynedd diwethaf



Mae nifer y mabwysiadwyr a gymeradwywyd ar gyfer plant hyd at 3 + blwydd oed wedi cynyddu. Gwaetha'r modd, cafwyd gostyngiad yn nifer y mabwysiadwyr a gymeradwywyd ar gyfer plant sy'n hŷn na'r grŵp oedran hwn. Mae'r rhan fwyaf o fabwysiadwyr yn datgan ei bod yn well ganddynt gael lleoli plant cyn iddynt ddechrau mewn addysg amser llawn er mwyn cael mwy o amser gartref gyda'r plant i ddatblygu'r broses ymlyniad. Mae goblygiadau yn hynny i'r broses baru, yn enwedig os yw mabwysiadwyr yn cael eu cymeradwyo ar gyfer grŵp o siblingiaid a bod y plentyn hynaf mewn grŵp oedran hŷn.



Mae nifer o fabwysiadwyr yn amharod i ystyried grwpiau o sibliogiaid oherwydd cyfyngiadau ariannol ac, mewn rhai achosion, diffyg profiad o rianta o ystyried anghenion plant sydd yn y system gofal. Mae angen cynnig cynlluniau cymorth mabwysiadu cryfach er mwyn annog darpar fabwysiadwyr i ystyried mabwysiadu mwy nag un plentyn.

Ymatebion i Holiaduron Sicrhau Ansawdd gan Fabwysiadwyr y lleolwyd plentyn/plant gyda nhw dros y flwyddyn ddiwethaf.

Anfonwyd 33 o holiaduron, cafwyd 17 o ymatebion

1 – Dywedodd 59% fod yr ymateb a’r gwasanaeth a gafwyd gan Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru wrth wneud yr ymholiad cyntaf yn dda iawn; dywedodd 35% ei fod yn dda a 5% ei fod yn weddol dda.

2 – Roedd 100% o’r farn bod y pecyn gwybodaeth a ddarparwyd a’r ymweliad cychwynnol wedyn yn dda iawn neu’n dda.

3 – Dywedodd 70.59% fod yr Hyfforddiant Cyn Cymeradwyo – Paratoi i Fabwysiadu yn dda iawn, dywedodd 24% ei fod yn dda a dywedodd 1 (5.88%) ei fod yn wael.

Sylwadau:-

“Roedd yn ymddangos yn amherthnasol i ni gan ein bod yn ofalwyr maeth”

“Roedd yr hyfforddwr yn dda ac yn drefnus iawn ac yn rhoi llawer o wybodaeth ond yn ei chyflwyno mewn ffordd syml a diddorol”

4 – O’r rheini a oedd wedi dilyn hyfforddiant mabwysiadu pellach, roedd 50% o’r farn ei fod yn dda iawn; 42.86% ei fod yn dda; 7.14% ei fod yn weddol dda.

Sylwadau:-

“Roedd yr hyfforddiant Safe Base ym Mawrth 2015 yn gymorth mawr”

“Rwyf wedi bod mewn amryw o ddiwrnodau hyfforddi ac roedd pob un yn llawn gwybodaeth”

“Hyfforddiant Cymorth gan y Teulu a Ffrindiau ac Anhwylderau Sbectrwm Alcohol Ffetws – y ddau’n dda iawn ac yn llawn gwybodaeth”

5 – Holwyd mabwysiadwyr am eu profiad o’r broses asesu a’u perthynas â’r gweithiwr cymdeithasol a oedd yn eu hasesu – roedd 13 o’r farn eu bod yn dda iawn, 2 yn dda; 1 yn weddol dda; 1 yn wael

Sylwadau:-

Roedd yn deg ond roedden ni’n teimlo braidd yn ansicr ac yn ei chael yn anodd iawn delio â rhai rhannau o’r broses, yn enwedig wrth ddelio â materion yn hanes perthnasau agos a oedd heb unrhyw gysylltiad â ni o gwbl ac wedi digwydd cyn i ni gael ein geni (priodas gyntaf a phlant rhiant). Roedd hyn yn creu rhwystredigaeth a gofid mawr a byddai wedi bod yn bosibl delio â hyn yn well. (Nid yw’r gweithiwr cymdeithasol sesiynol a gyflawnodd yr asesiad hwn yn cael cynnig gwaith asesu drwy GMGC bellach.)

“Roedd y gweithiwr cymdeithasol a’n hasesodd yn dda iawn. Dymunol a chyfeillgar iawn.”
“Ni ellid cael gweithiwr cymdeithasol gwell. Roedd yn gefnogol iawn ac mae’n parhau felly. Nid oes dim yn ormod o drafferth ac mae wedi gwneud y broses yn brofiad dymunol i ni”
“ Ni oedd y rhai cyntaf iddi eu hasesu ac roedd hi’n rhagorol, yn drwyadl, yn dymunol ac yn broffesiynol iawn ac yn gwneud y profiad yn un da iawn i ni”.
“Roedd yn ymddangos braidd yn hirwyntog gan ein bod yn ofalwyr maeth cymeradwyedig”
“Roedd yn hawdd iawn i mi ond roeddwn yn teimlo mai fi oedd yn gwneud y gwaith i gyd, heb gael fawr o gymorth gan y gweithiwr cymdeithasol.”
“Roedd y gweithiwr cymdeithasol (GMGC) yn rhagorol, roeddem yn teimlo ei bod yn gefnogol iawn i ni ac rydyn ni’n dal i deimlo hynny”.

6 – Beth oedd eich profiad o’r broses baru?

9 Da iawn; 6 Da; 2 Gweddol dda; 1 Gwael

Sylwadau:-

“Roedd ein gweithiwr cymdeithasol wedi newid hanner ffordd drwodd ac roedd hyn yn anodd. Mae’r gweithiwr cymdeithasol newydd wedi bod yn rhagorol drwy’r amser – byddwn yn dweud bod y profiad a gawsom gyda hi’n dda iawn a’i bod yn drueni nad oedd hi gyda ni drwy gydol y broses.”
“Roedd y broses wedi mynd yn ddistaw ond roedd yn gyflymach o lawer wrth baru.”
“Roedden ni wrth ein bodd â’r paru!”
“Roedden ni’n ei weld yn gyfnod hir rhwng cael ein holi’n gyntaf am bariad a chwrdd â gweithiwr cymdeithasol a swyddog darganfod teulu’r plentyn oherwydd gwyliau, ac rydyn ni’n deall hynny, ond mae’n golygu mwy o oedi wrth ddelio â phethau”.
 Rhai anawsterau ynghylch y pariad cyntaf ... *“Ar y llaw arall cawsom brofiad rhagorol yn y pariad terfynol â’n plentyn – roedd popeth wedi mynd yn dda.”*
 Rhai anawsterau am fod y cofnod CARA wedi dyddio, oedi dros gyfnod y Nadolig
“Roeddwn i’n cael bod gweithiwr cymdeithasol a swyddog darganfod teulu’r plentyn yn feirniadol ac anghyson”.
“I mi, hon oedd y rhan anoddaf – h.y. gwneud penderfyniad. Roeddwn yn ei chael yn anodd derbyn un plentyn heb wybod manylion plant eraill. Wrth edrych yn ôl, rwy’n gweld mai’r peth iawn oedd ymddiried yn swyddog darganfod teulu’r plentyn”

7 - Teimlai 88% eu bod yn cael digon o wybodaeth am y plentyn er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch a oeddent am fynd ymlaen â’r pariad.

Sylwadau:-

“Roedd y gofalwyr maeth yn gymorth mawr iawn wrth ateb ein holl gwestiynau”.
“Roedd yr holl gyfarfodydd yn gartrefol ac yn llawn gwybodaeth”.
“Gweddol dda. Doeddwn i ddim yn deall pam na allen ni weld fideo o’r plentyn ochr yn ochr â’r CARA”.
“Nid ar y CARA ond roedd adroddiad y gofalwyr maeth yn gymorth i lenwi’r bylchau”
“Teimlaf y dylai mabwysiadwyr gael amser i feddwl am bariad pan ydyn nhw’n cael gwybod am un”.

8 – Teimlai 88% eu bod yn cael cymorth priodol drwy gydol y broses cyflwyno

Sylwadau:-

“Roedd ein gweithiwr cymdeithasol hefyd yn sicrhau ein bod yn fodlon â’r ffordd yr oedd yr wythnos yn mynd. Roedd yn holi’n rheolaidd i sicrhau ein bod yn fodlon â’r holl drefniadau”.
“Roedd y gofalwyr maeth yn ein gwneud yn gartrefol iawn”
“Cawsom broblemau ynghylch Gofalwyr Maeth ond teimlem fod GMGC yn gefnogol pan godwyd cwestiynau”.

9 – Teimlai 83% fod hyd y broses cyflwyno a’r amserlen ar gyfer symud y plentyn i’r cartref yn briodol.

Dywedodd 17% nad oeddent.

Sylwadau:-

“Er bod y cyfnod cyflwyno’n fyr, roedd wedi gweithio’n dda iawn gan ein bod yn hollol gyfarwydd ag arferion ein merch erbyn diwedd yr wythnos. Roedd y gofalwyr maeth yn gwmni da iawn. Roedden nhw wedi gwneud i bob un ohonon ni deimlo’n gartrefol ac roedd yn amlwg eu bod yn dotio ar ein merch. Roedd yr ymlyniad da rhyngddyn nhw a’n merch wedi ein helpu ni i greu ymlyniadau tebyg. Ni allwn ddiolch digon iddyn nhw am bopeth a wnaethant drosti yn ei blwyddyn gyntaf”.

“Ie a nage. Roedd ein proses cyflwyno’n hir a byddai wedi gallu bod o leiaf wythnos yn fyrrach gan fod y plant yn barod i symud i mewn aton ni ac yn teimlo’n rhwystredig ac annifyr am nad oedden nhw’n gweld eu cartref newydd. Byddai wedi gallu bod ychydig yn fwy hyblyg er mwyn cwrdd ag anghenion ein plant”.

“Roedd yn iawn yn y diwedd ond byddai’r cyflwyniadau wedi bod yn well pe bydden nhw’n para pum wythnos. Roedden ni’n gyfyngedig gan fod y gofalwyr maeth yn mynd ar eu gwyliau, ond aeth popeth yn iawn i ni yn y diwedd”

“Rydyn ni’n teimlo y dylid ystyried opsiwn y gofalwyr maeth wrth benderfynu a yw’r plentyn/plant yn barod i fynd. Teimlwn y dylai ein plant fod wedi cael eu symud ychydig ddyddiau’n gynt gan eu bod yn barod”.

“Roedd y broses cyflwyno’n hir (mwy na 3 wythnos) gan fod fy mhentyn yn hŷn. Roedd yn anodd bod allan o’r tŷ yn ystod hanner cyntaf y broses. Teimlaf ei bod yn briodol gan mwyaf ond bod y Gofalwr Maeth yn pennu hyd y broses am ei fod yn ceisio arafu pethau”.

10 – Teimlai 94.12% eu bod wedi cael lefelau priodol o gymorth ar ôl lleoli plant.

Sylwadau:-

Roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol, y gweithiwr cymdeithasol gofal plant a gweithiwr cymdeithasol GMGC “i gyd yn rhagorol o ran darparu cymorth a chynghor ar ôl lleoli. Cawsom bythefnos anodd iawn ar ddechrau’r lleoliad oherwydd salwch ac roedd y gweithiwr cymdeithasol gofal plant yn gefnogol iawn.” Roedd gweithiwr cymdeithasol GMGC “yn effeithiol iawn ac yn rhagorol o ran darparu gwybodaeth a chadw mewn cysylltiad heb ymyrryd”.

“Ni fyddwn wedi gallu ymdopi yn y diwrnodau a’r wythnosau cyntaf heb y cymorth a gefais”

11 – Teimlai 82% fod ymgynghori digonol wedi bod ynghylch trefniadau cyswllt.

Sylwadau:-

“Trefnwyd hyn ochr yn ochr â threfniadau cyswllt ein mab”

12 – Roedd 53% a oedd yn dilyn trefniadau cyswllt yn teimlo eu bod yn cael digon o wybodaeth a chymorth i gymryd rhan lawn yn y broses hon. Roedd 23% nad oeddent yn teimlo hynny a 24% nad oeddent wedi ymateb neu nad oeddent â chytundeb gweithredol ar y pryd.

Sylwadau:-

“Roeddwn i’n teimlo ein bod wedi cael ein gadael i ddelio â’n llythyrau cyntaf ar ein pen ein hunain a’r cyfan a wnes i oedd ysgrifennu’r hyn yr oeddwn i’n teimlo ei fod yn briodol. Nid oeddwn yn teimlo ein bod wedi cael unrhyw ganllawiau fel y cyfryw”. (Darperir pecyn gwybodaeth bob amser i fabwysiadwyr a rhieni biolegol gyda llythyrau enghreifftiol a chynigir cymorth drwy ymweld â’r cartref)

“Ddim eto ond ni fyddwn yn cael ein cysylltiad anuniongyrchol cyntaf tan fis Mehefin ac rydyn ni wedi trefnu i weld gweithiwr cymdeithasol a fydd yn ein helpu i roi trefn ar y wybodaeth gyswllt”.

13- Pa hyfforddiant/cymorth ychwanegol a fyddai’n fanteisiol i chi fel rhieni ac i’ch plentyn/plant? Sylwadau:

“Efallai ynghylch y ffordd o ddelio â’r ymdeimlad o gollu’r Gofalwyr Maeth, a oedd wedi chwarae rhan bwysig ym mywydau’r plant”

“Yn y dyfodol, hyfforddiant ar sut i ddweud wrth eich plentyn ei fod wedi’i fabwysiadu a’r posibilrwydd o gael rhwydwaith cymorth grŵp o blant eraill sydd wedi’u mabwysiadu os bydd arni angen hynny yn y dyfodol”.

“Efallai y byddai gwybodaeth fwy ymarferol am strategaethau rhianta wedi bod yn ddefnyddiol cyn lleoli. Ond gan ei fod yn ymwneud â phlentyn penodol, gallai fod yn anodd ei deilwra’n iawn”. Byddai

cael mwy o gyfle i rannu profiadau anodd pobl eraill yn y cyfnod cynefino yn gallu helpu darpar fabwysiadwyr hefyd.

14 – Roedd 65% o’r farn bod y gwasanaeth a gawsant gan Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn dda iawn; 29% ei fod yn dda a dywedodd un unigolyn ei fod yn weddol dda.

Sylwadau:-

“Hoffem ddiolch i’r ddau weithiwr cymdeithasol am wireddu hyn i gyd. Ein hunig feirniadaeth o’r broses oedd bod oedi rhwng gwneud y Gorchymyn Lleoli a threfnu i gael gweithiwr cymdeithasol i asesu”. (Oherwydd pellter, roedd gweithiwr cymdeithasol o awdurdod lleol yn Lloegr wedi cynnal yr asesiad)

“Byddwn yn ei argymhell i unrhyw un sy’n ystyried mabwysiadu”.

“Cawsom ddau weithiwr cymdeithasol ac roeddent yn rhagorol. Heblaw am hynny, nid yw’r broses wedi bod yn brofiad da”.

15 – Roedd 18% wedi cymryd rhan mewn Grwpiau Cymorth Mabwysiadu a dywedodd 82% nad oeddent wedi cymryd rhan ynddynt.

16 – O’r 13 o ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent wedi cymryd rhan mewn Grwpiau Cymorth, dywedodd 77% y byddai diddordeb ganddynt mewn cymryd rhan mewn grŵp cymorth yn eu hardal.

“Yn bersonol, hoffwn weld sefydlu grŵp cymorth ar gyfer rhieni â phlant sydd newydd gael eu lleoli. Mae’r wythnosau cyntaf yn anodd”

17 – Beth yw’ch barn am gael grŵp cymorth i blant a fabwysiadwyd?

“Byddai’n braf bod mewn cysylltiad â phobl eraill sydd wedi mabwysiadu plant yn yr ardal, a chael diwrnodau chwarae efallai”.

“Syniad diddorol – nid wyf yn sicr sut y byddai’n helpu ein plentyn, er ei bod wedi mwynhau cwrdd â phlant eraill sydd wedi’u mabwysiadu a rhannu hanesion. Rwy’n credu bod hynny’n ei helpu i sylweddoli bod mabwysiadu’n rhywbeth arferol”.

“Mae’n syniad da yn fy marn i”.

“Rwy’n credu bod hyn yn syniad rhagorol gan ein bod ni’n teimlo y gallen ni helpu eraill gan ein bod ni wedi cael profiad o lawer o bethau’n barod ac y gallai hyn fod o gymorth i fabwysiadwyr eraill.”

“Gallai fod yn fanteisiol i rai”

“Byddai’n beth da i blant dyfu gydag eraill sydd yn yr un sefyllfa”

“Byddai’n debygol o fod ar gyfer plentyn penodol ac nid wyf yn gwybod sut y byddai hyn yn helpu fy mhleintyn yn y dyfodol”

“Syniad ardderchog”

11. Amharu

Nifer yr amhariadau o’i gymharu â nifer y lleoliadau (lleoliadau GMGC)

	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15
Nifer yr amhariadau ar leoliadau	0	2 (3 plentyn)	1 (3 plentyn)	1 (2 blentyn)	1 (1 plentyn)
Nifer y plant a leolwyd yn yr un cyfnod	22	45	30	57	55

Cafwyd un amhariad a oedd yn effeithio ar un plentyn yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Lleolwyd y plentyn gyda mabwysiadwyr o asiantaeth arall ac amharwyd ar y lleoliad ar ôl nifer o fisoedd. Mae cyfarfod i drafod yr amhariad i’w gynnal yn Ebrill 2015.

Mae polisi GMGC ar amharu wedi'i ddiweddarau ac fe'i cyflwynir i'r Bwrdd Partneriaeth ym mis Mai i'w gymeradwyo. Yn ogystal â hyn, bydd taflenni gwybodaeth ar gael i fabwysiadwyr a gweithwyr cymdeithasol sy'n delio ag amhariadau.

12. Hysbysiadau

Ni chafwyd unrhyw hysbysiadau yn ystod 2014-15

13. Gweithgarwch heblaw fel Asiantaeth

Gweithgarwch yng nghyswllt Partneriaid i Rieni, Ebrill 2014-Mawrth 2015

	Conwy	Din.	Fflint	Gwyn.	Wrecs.	Ynys Môn	Cyfanswm 2014-15	Cyfanswm 2013-14
Ymholiadau ynghylch Partner i Riant	4	8	11	8	15	3	49	59
Ymweliadau cychwynnol â Phartner i Riant	1	4	8	3	4	3	23	28
Gwiriadau o Bartner i Riant a gynhelir / sydd i'w dyrannu	-	2	-	2	4	-	8	7
Partner i Riant sy'n cael ei asesu ar hyn o bryd	-	1	3	2	-	2	8	5
Gorchmynion Mabwysiadu a roddwyd i Bartner i Riant	3	-	1	-	2	-	6	9

Ceir nifer sylweddol o ymholiadau o hyd ar gyfer mabwysiadu gan Bartner i Riant sy'n creu'r angen am gynnal ymweliadau cychwynnol a dilyn gwiriadau a thystlythyrau pan wneir cais i symud ymlaen. Nid yw nifer yr ymholiadau, asesiadau a gorchmynion mabwysiadu ar gyfer yr asesiadau hyn yn cael eu cynnwys mewn unrhyw ystadegau y mae Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol newydd yn gofyn amdanynt er gwaethaf yr anawsterau sy'n codi a'r effaith ar adnoddau.

14. Gwybodaeth Reoli a Gwaith Datblygu

Wrth sefydlu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i Gymru mae nifer mawr o ofynion am ddata newydd wedi'u cyflwyno ac mae GMGC wedi cofnodi a mewnbynnu'r data hyn ers dechrau Ebrill 2014. Cafwyd rhai anawsterau wrth goladu gwybodaeth benodol nad yw ar gael i GMGC yng nghronfa ddata CHARMS ac y mae angen iddi fod ar gael drwy dimau perfformiad a systemau TG yr awdurdodau lleol. Rhai o'r prif ddata y mae angen i awdurdodau lleol eu hystyried yw:

- Darparu Gwaith Cofnodi Profiadau Bywyd a gyflawnir gan weithwyr cymdeithasol gofal plant a gwybodaeth a ddarperir drwy'r ail adolygiad Mabwysiadu/Plentyn sy'n Derbyn Gofal.
- Cyfanswm yr achosion lle talwyd lwfansau mabwysiadu drwy'r awdurdod lleol
- Nifer yr atgyfeiriadau a oedd yn gofyn am gymorth ymarferol/therapiwtig sy'n ymwneud â mabwysiadu drwy dimau dyletswydd
- Nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer cymorth ariannol a chymorth ymarferol sy'n gysylltiedig â mabwysiadu
- Nifer yr atgyfeiriadau a arweiniodd at gynnig gwasanaethau cymorth ar ôl asesu

Caiff gwybodaeth reoli ei choladu ar system CHARMS a darperir adroddiadau am y gwasanaeth bob chwarter blwyddyn i'r Bwrdd Asiantaeth a'r Paneli Mabwysiadu ar y Cyd. Mae hyn yn cynnwys agweddau ar yr holl weithgarwch a gyflawnir gan GMGC gan gynnwys recriwtio, asesu, hyfforddiant, paru, rhestrau aros, cymorth mabwysiadu, materion cyswllt, cyllid a chymorth a ddarperir drwy gontractau a phartneriaethau ag asiantaethau gwirfoddol.

15. Materion cyfreithiol /Gorchmynion Lleoli/Lleoli

Bydd deddfwriaeth newydd sydd i ddod i rym ar 1 Ebrill 2014 yn effeithio ar y gwasanaeth mabwysiadu yn y flwyddyn sydd i ddod. Rhagwelir y bydd y diwygiadau canlynol o gymorth i GMGC drwy roi mwy o hyblygrwydd wrth ddefnyddio paneli ar draws y rhanbarth:

Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) 2014:

A. Y rhestr ganolog

- (1) Yn ddarostyngedig i reoliad 5, rhaid i asiantaeth fabwysiadu gynnal rhestr o bersonau y mae'n ystyried eu bod yn addas i fod yn aelodau o banel mabwysiadu ("y rhestr ganolog"), gan gynnwys —
 - (a) un neu ragor o weithwyr cymdeithasol sydd ag o leiaf dair blynedd o brofiad ôl-gymhwyso perthnasol, a
 - (b) cynghorydd meddygol yr asiantaeth fabwysiadu (neu o leiaf un os oes mwy nag un cynghorydd meddygol wedi'i benodi).
- (2) Caiff person sydd wedi'i gynnwys ar y rhestr ganolog ar unrhyw adeg ofyn am i'w enw gael ei ddileu o'r rhestr ganolog drwy roi mis o hysbysiad ysgrifenedig.
- (3) Pan fo'r asiantaeth fabwysiadu o'r farn bod person sydd wedi'i gynnwys ar y rhestr ganolog yn anaddas neu'n analluog i barhau ar y rhestr caiff yr asiantaeth ddileu enw'r person hwnnw o'r rhestr drwy roi mis o hysbysiad ysgrifenedig iddo ynghyd â rhesymau.
- (4) Caiff unrhyw ddwy neu ragor o asiantaethau mabwysiadu gynnal ar y cyd restr o bersonau y maent yn ystyried eu bod yn addas i fod yn aelodau o banel mabwysiadu.

B. Ffurio'r panel mabwysiadu

- (1) Rhaid i asiantaeth fabwysiadu ffurfio un neu ragor o baneli mabwysiadu, yn ôl yr angen, i gyflawni swyddogaethau panel mabwysiadu o dan y Rheoliadau hyn a rhaid iddi benodi aelodau'r panel o blith y personau ar y rhestr ganolog gan gynnwys—
 - (3) Caiff unrhyw ddwy neu ragor o asiantaethau mabwysiadu ffurfio ar y cyd banel mabwysiadu ("panel mabwysiadu ar y cyd") ac yn yr achos hwnnw rhaid i'r asiantaethau gytuno rhyngddynt ar yr aelodau a benodir.

16. Cymorth Mabwysiadu

16.1 Cymorth Mabwysiadu Unigol

Cyflwynir atgyfeiriadau am Gymorth Mabwysiadu ar gyfer plant a fabwysiadwyd drwy Dimau Dyletswydd ac Asesu'r awdurdod lleol perthnasol er mwyn cael asesiad cychwynnol. Bydd yr achosion yn cael eu hatgyfeirio i'r gwasanaethau priodol neu eu dwyn i'w sylw. Oherwydd ceisiadau diweddar gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol am ddata ar yr atgyfeiriadau hyn bydd angen trafod y mater hwn yn y Bwrdd Partneriaeth a chyda gweithwyr TG proffesiynol i sicrhau bod modd coladu'r data gofynnol yn effeithiol gan yr awdurdodau lleol sydd yn y gydweithrediaeth yn y dyfodol.

16.2 Grwpiau Cymorth Mabwysiadu yng Ngogledd Cymru

Mae pedwar grŵp cymorth mabwysiadu ar gael yn rhanbarth Gogledd Cymru ac mae GMGC yn gobeithio datblygu'r adnodd hwn yn y flwyddyn ariannol nesaf ond mae ei allu i wneud hyn wedi'i gyfyngu oherwydd y terfyn ar yr adnoddau a chyllid sydd ar gael. Gan fod cymorth mabwysiadu'n faes y nodwyd bod angen ei ddatblygu, mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn cynnal gweithgor i ystyried y materion hyn a'r gobaith yw y bydd hyn yn cael ei ddatblygu ledled Cymru i sicrhau tegwch o ran y cymorth sydd ar gael, yn enwedig drwy wasanaethau therapiwtig, ym mhob rhan o Gymru.

Grwpiau Cymorth GMGC yw:

- Grŵp Cymorth Mabwysiadu Wrecsam/Sir y Fflint sy'n cael ei redeg gan fabwysiadwyr
- Grŵp Cymorth Conwy sy'n cael ei redeg gan fabwysiadwyr.
- Grŵp Ti a Fi i blant cyn oedran ysgol a fabwysiadwyd sy'n cael ei drefnu gan staff GMGC yn Ynys Môn.
- Grŵp Cymorth sy'n dilyn y rhaglen rianta Safe Base sy'n cael ei rhedeg drwy After Adoption

16.3 Rhaglen Rianta – Safe Base

Mae GMGC yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag After Adoption i ddarparu'r rhaglen Safe Base i fabwysiadwyr cymeradwyedig y lleolwyd plant gyda nhw.

Nifer y Mabwysiadwyr sydd wedi dilyn y rhaglenni Safe Base hyd yn hyn:

		Wedi'u Gwahodd	Yn Bresennol
2013-14	Medi 2013	13	8
	Ionawr 2014	13	8
2014-15	Gorffennaf 2014	8	7
	Mawrth 2015	18	10
Cyfanswm		52	33

Adborth gan Fabwysiadwyr sydd wedi dilyn y rhaglen Safe Base a ddarparwyd gan After Adoption:

Mae After Adoption wedi cynnal y rhaglenni canlynol:

- **4** rhaglen Safe Base wedi'u cwblhau;
- **2** Grŵp Cymorth i Rieni wedi'u cwblhau
- **79** o blant wedi'u hatgyfeirio


- 7 teulu y trefnwyd iddynt ddilyn rhaglen yn y dyfodol
- Mae 8 teulu wedi tynnu'n ôl
- Ar gyfartaledd, bydd 8 teulu a 14 o blant yn cymryd rhan ym mhob rhaglen
- Oedran cyfartalog y plant a gymerodd ran yn y rhaglenni oedd 6.5 blwydd


Adborth gan Fabwysiadwyr:

- Roedd 98% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad 'Rwyf yn fodlon ar ansawdd y rhaglen Safe Base'.
'Rhagorol'; 'Dull amlhaenog da iawn'; 'Llawlyfr da i'w ddefnyddio ar ôl y rhaglen'
- Roedd 98% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad 'Rwyf yn fodlon ar ansawdd hyfforddwyr Safe Base'.
'Roedd yr hyfforddwyr yn dda ac yn gyfeillgar iawn'; 'Rhagorol'; 'Proffesiynol iawn ac yn hawdd mynd atynt'
- Roedd 98% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad 'Byddwn yn argymhell Safe Base i rieni eraill sy'n mabwysiadu.'
'Rwy'n teimlo y dylai pawb sy'n mabwysiadu wneud hyn!'; 'Dylai fod yn orfodol'; 'Yn hollol'

Arolygon o Fodlonrwydd Rhieni:

Anghytuno'n Gryf – 0 1 2 3 4 5 – Cytuno'n Gryf





Mae'r adborth a roddwyd i After Adoption ar ôl y cyrsiau wedi bod yn gadarnhaol iawn ac yn dangos bod mabwysiadwyr yn teimlo'n fwy galluog i reoli ymddygiad eu plant. Y gobaith yw y bydd hyn yn cynnal lleoliadau ac yn atal amharu arnynt yn y dyfodol.

16.4 Cyswllt Uniongyrchol ac Anuniongyrchol – Cymorth i blant a fabwysiadwyd, teuluoedd biolegol a theuluoedd mabwysiadol.

Mae cyswllt uniongyrchol yn golygu cyswllt wyneb yn wyneb.

Mae gennym 623 o gytundebau cyswllt yn y system sy'n ymwneud â chysylltu uniongyrchol ac anuniongyrchol. Mae 523 o'r cytundebau hyn yn weithredol ar hyn o bryd. Gwnaethpwyd 91 o gytundebau newydd ychwanegol yn y 12 mis diwethaf. O'r cytundebau gweithredol, mae 102 yn ymwneud â chysylltu uniongyrchol. Gwnaethpwyd 23 o gytundebau ychwanegol ar gyfer cysylltu uniongyrchol yn y 12 mis diwethaf.

Mae pob cytundeb yn wahanol a gall gynnwys cysylltu uniongyrchol ac anuniongyrchol â pherthnasau biolegol, gofalwyr blaenorol neu gysylltu rhwng brodyr a chwiorydd sydd wedi'u lleoli i'w mabwysiadu ar wahân.

Mae GMGC yn gyfrifol am reoli pob un o'r 623 o gysylltiadau ond dim ond canran fach o'r sesiynau cysylltu uniongyrchol yr ydym yn ymwneud â nhw ar hyn o bryd. Ein prif rôl mewn perthynas â sesiynau cysylltu uniongyrchol yw trefnu a chydgyssylltu â'r partïon perthnasol. Mae nifer mawr o sesiynau cysylltu uniongyrchol yn cael eu trefnu rhwng mabwysiadwyr heb gynnwys GMGC. Er 2014 mae GMGC wedi goruchwylio tair sesiwn cysylltu uniongyrchol.

Rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015 rydym wedi cael 59 o atgyfeiriadau newydd sy'n ymwneud â chysylltu. Yn ystod yr un cyfnod, rydym hefyd wedi cynnig cymorth i berthnasau biolegol a mabwysiadwyr, gan gynnwys 45 o ymweliadau Swyddfa a 18 o ymweliadau Cartref, gyda'r prif nod o gynnig cymorth a chefnogaeth i berthnasau biolegol i ysgrifennu llythyrau cysylltu.

	Conwy	Sir Ddinbych	Sir y Fflint	Gwynedd	Wrecsam	Ynys Môn	Cyfanswm
2012-13	71	78	35	33	53	24	294
2013-14	82	136	41	53	77	43	432
2014-15 yn weithredol ar hyn o bryd	102	152	45	61	107	56	523

16.5 Atgyfeiriadau Cofnodion Geni – Hawl i weld ffeiliau, Cwmsela a Gwasanaeth Canoli.

Mae GMGC wedi gwneud contract ag After Adoption i gyflawni'r gwaith hwn ac mae'r niferoedd a atgyfeiriwyd wedi bod yn weddol gyson dros y tair blynedd diwethaf. Rhagwelir y bydd y contract hwn yn parhau nes ceir newid yn y cynllun 3-5 mlynedd sy'n cael ei drafod ar hyn o bryd yng nghyfarfodydd y Bwrdd Partneriaeth ac ym mhenderfyniadau Llywodraeth Cymru ar y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.

Atgyfeiriadau Cofnodion Geni a gafwyd ac a drosglwyddwyd i After Adoption 2014-15 ac yn y 2 flynedd blaenorol

	2014/15			2013/2014			2012/2013		
	Cwmsela Rhiant Biolegol	Adran 98 Cyn 75	Adran 98 Ar ôl 75	Cwmsela Rhiant Biolegol	Adran 98 Cyn 75	Adran 98 Ar ôl 75	Cwmsela Rhiant Biolegol	Adran 98 Cyn 75	Adran 98 Ar ôl 75
Ynys Môn	0	6	1	1	6	2	2	5	1
Gwynedd	4	12	3	2	15	6	3	9	2
Conwy	2	17	3	3	13	0	3	7	6
Sir Ddinbych	2	7	2	4	11	5	3	10	1
Sir y Fflint	1	16	4	2	11	5	2	13	5
Wrecsam	12	12	4	7	13	5	6	12	4
Arall	0	0	0	0	1	0	-	-	-
CYFANSWM	21	70	17	19	70	23	19	56	19
Cyfanswm yr Atgyfeiriadau	108			112			94		

Ymatebion i'r Holiadur Ansawdd Gofal ar achosion a gaewyd gan After Adoption ar ôl cwblhau gwaith:

O'r 22 o ymatebion a gafwyd:

- teimlai pawb eu bod wedi'u cyfarch yn briodol a'u hysbysu am drosglwyddo i After Adoption ar ôl cysylltu â GMGC i gael y gwasanaeth; cyfeiriwyd yn y sylwadau ychwanegol at egluro'r amserlen a bod yr holl staff yn gymwynasgar a chefnogol iawn.
- dywedodd 82% eu bod o'r farn bod y gwasanaeth yn rhagorol, dywedodd eraill ei fod yn dda iawn ac 1 ei fod yn weddol dda.

Rhai o'r sylwadau gan ddefnyddwyr y gwasanaeth:-

- Ni allaf feddwl am unrhyw ffordd i'w wella – roedd y gwasanaeth yn rhagorol. Roedd fy ngweithiwr achos yn rhagorol ac wedi fy helpu drwy gydol y broses
- Roedd pawb yr oeddwn wedi delio â nhw'n rhagorol

- Sensitif a chymwynasgar iawn
- Yn llawn cydymdeimlad, yn gyfeillgar ac yn broffesiynol iawn – rhagorol
- Ni allwn ddymuno am ddim gwell – gwybodus, cyfeillgar ac effeithlon
- Nid wyf yn credu bod dim i'w wella o ran Cyngor Wrecsam. Roedd After Adoption yn ardderchog. Roedd y ddau weithiwr yn rhagorol, yn gefnogol ac yn deall fy nheimpladau ar bob cam. Roedden nhw wedi mynd i'r drafferth o ffonio ar ôl 5 pm cyn i mi gwrdd â'm hanner brawd. Roedden nhw wedi cerdded yr ail filltir ac wedi fy helpu'n aruthrol. Byddaf yn fythol ddiolchgar am eu cefnogaeth.
- Ni allaf weld unrhyw ddiffygion yn y gwasanaeth
- Cyflymwch y broses

Nid oedd y person a ddywedodd fod y gwasanaeth yn weddol dda wedi gwneud unrhyw sylwadau.

Roedd y defnyddiwr gwasanaeth a gredai fod y gwasanaeth yn wael wedi awgrymu bod angen dyrannu gweithwyr cymdeithasol a oedd yn agosach i ardal Wrecsam. Bydd y mater hwn wedi'i godi gydag After Adoption yn ein cyfarfod chwarterol gan fod y contract yn cynnwys trefnu i weithwyr fod ar gael ledled Gogledd Cymru gan gynnwys rhai sy'n siarad Cymraeg.

17. Datblygu'r Gwasanaeth Mabwysiadu

Mae GMGC yn disgwyl canlyniadau'r gwaith gan yr is-grwpiau presennol sy'n derbyn cymorth gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol mewn cysylltiad â materion sy'n ymwneud â Pholisïau Cyffredin, Rheoli Perfformiad, Cymorth Mabwysiadu a'r Cyfryngau a Marchnata a allai effeithio ar y gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd. Yn y cyfamser, bydd GMGC yn parhau i ddatblygu'r gwasanaeth fel y cytunwyd yn y Cynllun Gwasanaeth, y Cynllun Hyfforddi a'r Strategaeth Recriwtio sydd i'w cyflwyno i'r Bwrdd Partneriaeth ym mis Mai.

Ymhlith y datblygiadau a gafwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf y mae systemau adrodd ar CHARMS er mwyn cael gafael yn fwy effeithlon ar ddata y mae'r Gwasanaeth Cenedlaethol yn gofyn amdanynt, diweddarau'r wefan a darparu hyfforddiant pellach. Mae dogfennau ar gael yn rhwyddach hefyd gan fod y rhan fwyaf ohonynt bellach ar gael yng nghronfa ddata ar-lein CHARMS. Mae hyn hefyd yn ffordd o sicrhau mai dim ond y dogfennau diweddaraf sydd ar gael i staff gan eu bod yn cael eu diweddarau'n rheolaidd.

Cymorth Mabwysiadu yw'r maes sy'n peri'r pryder mwyaf o hyd. Mae hyn yn galw am gyllid a datblygu a'r gobaith yw y bydd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn cael effaith o ran darparu'r gwasanaethau hyn yn deg ledled Cymru.

Mae GMGC hefyd yn ceisio datblygu rhaglen rianta ar hyn o bryd er mwyn helpu mabwysiadwyr i ymdopi â'r heriau y bydd plant a fabwysiadwyd yn eu hwynebu'n aml.

18. Polisiâu a Threfnau

Mae nifer o bolisiau/trefnau GMGC wedi'u diweddarau ac fe'u cyflwynir i'r Bwrdd Partneriaeth ym mis Mai. Ymhlith y rhain y mae'r Polisi a Threfnau ar Amharu ar Leoliadau, Cymorth Ariannol i Fabwysiadwyr a Rhestr o Ffioedd.

Teimlir ei bod yn fwy priodol gohirio unrhyw newidiadau mewn polisiâu eraill nes bydd rhagor o wybodaeth ar gael gan is-grŵp Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru ar Bolisiau Cyffredin.

19. AGGCC

Ni chynhaliwyd unrhyw arolygiadau o'r gwasanaethau mabwysiadu yng Ngogledd Cymru yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Penderfynwyd hyn am fod y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn cael ei ddatblygu ac er mwyn i AGGCC ystyried dull diwygiedig o arolygu'r cydweithrediaethau rhanbarthol.

20. Ymgynghori

Mae'r holl adborth ar ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan GMGC yn cael ei goladu ar ôl ymgynghori drwy anfon holiaduron at y rhanddeiliaid canlynol:

- Aelodau staff (holiadur blynyddol)
- Gweithwyr Cymdeithasol Gofal Plant yr awdurdodau lleol
- Aelodau Paneli (holiadur blynyddol a thaflen sylwadau misol a ddarperir ar gyfer pob achos a gyflwynir i'r panel).
- Mabwysiadwyr sy'n dod i gyfarfodydd Paneli
- Mabwysiadwyr y lleolwyd plentyn gyda nhw o fewn y cyfnod dan sylw (Ebrill 2014 – Mawrth 2015).
- Y rhai sy'n dod i'r holl ddigwyddiadau hyfforddi a ddarperir gan GMGC (gweler yr adran ar Hyfforddi)
- Plant a fabwysiadwyd, rhieni a pherthnasau biolegol i blant a fabwysiadwyd sy'n defnyddio gwasanaethau After Adoption a ddarperir drwy gontract â GMGC.
- Cofnodwyd yr ymatebion yn yr adroddiad hwn.

Mae GMGC wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriadau canlynol ar:

- Ehangu Mynediad at Wasanaethau Canoli i Ddisgynyddion a Pherthnasau Pobl a Fabwysiadwyd
- Cyfarwyddiadau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Trefniadau Mabwysiadu ar y Cyd) (Cymru) 2015
- Treialu fformat newydd y CAR/Atodiad B

21. Cwynion, Sylwadau a Chanmoliaeth

Cafwyd 2 gŵyn.

Cwyn 1 – Mae person annibynnol wedi ymchwilio i un gŵyn Cam 2 a gafwyd wedi i leoliad fetu yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Ni chadarnhawyd y rhan fwyaf o'r naw o gwynion. Fodd bynnag, roedd 10 elfen wedi'u cadarnhau'n llawn neu'n rhannol. Roedd yr argymhellion yn cynnwys:

1. Bod mabwysiadwyr yn llofnodi un ffurflen benodol a roddir iddynt a bod GMGC yn dilyn atgyfeiriadau gan gyflogwyr er mwyn cadarnhau trefniadau ariannol ac absenoldeb o'r gwaith ar gyfer mabwysiadu cyn cynnal y paneli
2. Bod GMGC yn datblygu polisi sy'n pennu na fydd mabwysiadwyr yn cael eu hailystyried am gyfnod penodol ar ôl amharu ar leoliad;
3. Taflen wybodaeth i fabwysiadwyr;
4. Bod GMGC yn cynnig gweithiwr cymdeithasol sydd heb gysylltiad â'r achos i ddarparu cymorth; anfonir llythyr safonol ffurfiol sy'n egluro'r camau nesaf a'r cymorth sydd ar gael ac sy'n cynnwys enw'r gweithiwr cymdeithasol a fydd yn cynorthwyo.
5. Amserlenni i atal oedi mewn cyfarfodydd a chofnodion ar amharu.

Mae GMGC wedi delio â'r holl faterion hyn a bydd yn gofyn am gymeradwyo'r dogfennau mewn cyfarfod o'r Bwrdd Partneriaeth ym mis Mai 2015.

Cwyn 2 – Cafwyd cwyn a oedd yn ymwneud ag anawsterau mewn perthynas â chysylltu. Cafodd ei datrys wedi i'r rheolwr ymweld â'r cartref ac nid oedd angen cymryd camau pellach.

Canmoliaeth:

Mae GMGC wedi cael 12 o eiriau o ganmoliaeth benodol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Nid yw hyn yn cynnwys canmoliaeth yn yr holiaduron neu yn yr adborth ar gyfer gwerthuso digwyddiadau hyfforddi.

Gan Fabwysiadwyr

- Diolch i chi am bopeth, rydych chi wedi bod yn ardderchog ac rydym yn gwerthfawrogi popeth rydych chi wedi'i wneud ar ein rhan
- Ar lawer ystyr mae ein gweithiwr cymdeithasol yn ein hadnabod yn well na ni'n hunain. Cyn dechrau'r broses mabwysiadu, roeddem wedi darllen yn aml pa mor anodd ag ymyrgar y gallai fod, ond nid dyna fu ein profiad o gwbl. Mae ein gweithiwr cymdeithasol wedi bod yn broffesiynol, gonest, gwybodus a sensitif bob amser. Ni fyddem wedi gallu gofyn am well gweithiwr cymdeithasol i'n helpu ar y daith hon. Rydym wedi teimlo bod parch mawr tuag atom gan Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru.
- Byddai'r ddau ohonom yn hoffi diolch yn fawr i chi am eich arweiniad, cymorth a brwdfrydedd yn ystod yr hyfforddiant dros y pedwar diwrnod diwethaf. Hon yw'r daith bwysicaf yn ein bywyd ac, er ein bod yn gwybod bod ffordd hir o'n blaen, nid ydym erioed wedi teimlo mor barod, mor frwdfrydig a mor gyffrous, ac i chi mae'r diolch am hynny. Diolch yn fawr i chi.
- Diolch o waelod calon i chi am eich holl gymorth ac arweiniad dros y 15 mis diwethaf. Rydych chi wedi bod yn rhan bwysig o'n bywyd drwy gydol y broses hon ac ni fyddem wedi cyrraedd mor bell â hyn heddiw oni bai amdanoch chi.

- Diolch i chi am bopeth a wnaethoch i ddod â'n teulu at ei gilydd. Rydych chi'n gwneud gwaith arbennig iawn ac rydym yn gwerthfawrogi'r rhan rydych chi wedi'i chwarae yn ein bywyd.
- Diolch i chi am eich cymorth, cefnogaeth a dyfalbarhad! Rydym yn wir ddiolchgar.
- Diolch yn fawr am fod wrth law i'n helpu bob amser dros y ddwy flynedd diwethaf ac i GMGC am ein helpu i wireddu ein breuddwyd... rydym mor falch o fod yn rhieni i ddau blentyn hyfryd, mae ein teulu'n gyflawn bellach a byddwn yn gwerthfawrogi pob un diwrnod!

Gan Gydweithwyr Proffesiynol

- Hoffwn ddiolch i'r ddau ohonoch am y gwaith a'r gefnogaeth yr ydych chi wedi'u rhoi i mi wrth weithio ar ein hachos mabwysiadu diweddar. Gwerthfawrogwyd hyn yn fawr ac rwyf yn falch bod y canlyniad i'r plant wedi bod yn gadarnhaol (Gweithiwr Cymdeithasol Gofal Plant)
- Wedi cwrdd â'i deulu biolegol – diolch yn fawr i chi am yr holl gymorth yr ydych chi wedi'i roi i mi
- Rhagorol (barn Arweinydd Tîm Lleoliadau Plant am un o weithwyr cymdeithasol GMGC)

22. Adrodd ar Gynnydd i Uwch-reolwyr, Pwyllgorau Craffu ac Aelodau

Mae trefniadau llywodraethu ac adrodd GMGC wedi newid. Rhoddwyd y gorau i gynnal cyfarfodydd misol y Rheolwr Gweithredol a bydd adroddiadau GMGC a materion i'w trafod yn cael eu cyflwyno'n uniongyrchol i'r Bwrdd Partneriaeth bob chwarter. Mae aelodaeth y Bwrdd Partneriaeth wedi'i newid yn unol â'r ddeddfwriaeth newydd fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r adroddiad hwn.

Adroddir ar ddangosyddion perfformiad bob chwarter blwyddyn i Dîm Canolog y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a darperir y wybodaeth hon i'r Grŵp Cynghorol a Bwrdd Llywodraethu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.

23. Agenda ar gyfer Newid/Heriau'r Dyfodol

Ar ôl sefydlu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, mae GMGC yn rhag-weld y bydd nifer o heriau yn y dyfodol wrth wneud newidiadau i ymgorffori unrhyw ddeddfwriaeth, polisiau a threfnau newydd. Fodd bynnag, mae'r heriau o ddydd i ddydd yn parhau fel a ganlyn:

- Cynyddu nifer y mabwysiadwyr a gymeradwyir a'u hannog yn benodol i ystyried mabwysiadu grwpiau o sibliogiaid, plant hŷn a phlant sydd ag anabledd.
- Gwella'r amserlenni ar gyfer mabwysiadwyr a phlant
- Darparu rhagor o gymorth mabwysiadu i'r holl fabwysiadwyr a fydd ar gael yn rhwyddach

24. Diwedd glo

Mae GMGC yn parhau i ddatblygu fel gwasanaeth. Fel y nodwyd yn yr adroddiad hwn, yn y flwyddyn hon y cafwyd y nifer mwyaf o ymholiadau a ffurflenni cais, a'r nifer mwyaf o blant a fabwysiadwyd a'u lleoli gyda gofalwyr maeth ers ei sefydlu yn 2010. Er bod yr elfen olaf yn anodd i'r timau maethu o ran yr adnoddau sydd ar gael iddynt, mae'n llesol i blant gan na fyddant yn gorfod newid lleoliad a phrofi mwy o golled ar eu taith at leoliad parhaol. Mae'r rhan fwyaf o blant Gogledd Cymru wedi'u

Ileoli gyda mabwysiadwyr GMGC fel y gall ein gweithwyr cymdeithasol barhau â'u cysylltiad a chynnig cymorth fel y bo angen.

Mae GMGC wedi canolbwyntio ar recriwtio mabwysiadwyr a fydd yn ystyried mabwysiadu grwpiau o sibliogiaid a chafwyd tystiolaeth bod hyn yn dwyn ffrwyth yn yr ymholiadau diweddaraf.

Mae nifer y plant a leolwyd wedi aros yn weddol sefydlog dros y ddwy flynedd diwethaf ac mae'n dod i ychydig mwy nag un plentyn ar gyfartaledd bob wythnos o'r flwyddyn. Mae nifer y plant a atgyfeiriwyd i'r gwasanaeth wedi gostwng tua 30% ond cafwyd cynnydd yn nifer y plant ifanc iawn a gaiff eu hatgyfeirio ar ôl penderfyniadau "y dylid eu mabwysiadu" gan Benderfynwyr yr Asiantaethau. Mae hyn yn bwysig gan ei fod yn awgrymu bod plant sydd mewn perygl yn cael eu hadnabod yn gynnar iawn ac mae mwy o gyfleoedd i ddod o hyd i deuluoedd mabwysiadol.

Mae'n glir bod cyfuno adnoddau rhwng yr awdurdodau wedi bod yn llwyddiannus ac mae ein cydweithwyr yn Ne Cymru bellach yn ffurfio eu cydweithrediaethau er mwyn creu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Edrychwn ymlaen at weld y manteision o hynny o ran mabwysiadu ledled Cymru.

Bydd yr adroddiad hwn yn ateb gofynion Rheoliad 22 ond gellir ei ddsbarthu hefyd i uwch-reolwyr, cabinetau, pwyllgorau craffu etc. Bydd pob awdurdod lleol yn penderfynu ar y ffordd o ddsbarthu'r adroddiad hwn yn ei ardal.

Dyddiad cwblhau: 15 Mai 2015.
Awdur: Mandy Humphries
Teitl: Rheolwr Mabwysiadu Gogledd Cymru






















ATODIAD 1

Aelodau a Chynghorwyr y Paneli Mabwysiadu ar y Cyd, Ebrill 2014 – Mawrth 2015

		Sir y Fflint /Wrecsam			Conwy/Sir Ddinbych			Gwynedd/Ynys Môn		
	Rôl ar y Panel	Enw	Dyddiad Gorffen	Arfarniad	Enw	Dyddiad Gorffen	Arfarniad	Enw	Dyddiad Gorffen	Arfarniad
1	Cadeirydd y Panel	Emyr Owen	24/02/19	04/03/15	Sue Roberts	26/01/2017	16/07/2014	Non Davies	20/12/17	I'w drefnu fis Mehefin 2015
2	Ymgynghorydd Meddygol	Dr Ewoud Bos	Amh.	14/11/14	Dr Sue Roberts	Amh.	17/04/2015	Dr Teyrnnon Powell	20/12/17	I'w drefnu fis Mehefin 2015
3	Ymgynghorydd Meddygol	Dr Anil Ninan	Amh.	14/11/14	Dr Lindsay Groves	Amh.	I'w gynnal 15/05/2015	Amh.	Amh.	I'w drefnu fis Mehefin 2015
4	Aelod Annibynnol	Paula Spencer	26/09/15	27/11/15	Kate Dyke	26/01/2017	17/04/2015	John Peake	20/12/17	I'w drefnu fis Mehefin 2015
5 Page 136	Aelod Annibynnol	Denise Nicholls	26/09/15	27/11/14	Gaynor Lanyon	26/01/2017	Salwch hirdymor	Robert A Jewell	20/09/18	I'w drefnu fis Mehefin 2015
	Aelod Annibynnol	Denise Preece	26/09/15	Ymddi-swyddodd	Rod Bowden	26/01/2017	17/04/2015	Dewi Rhys Jones	20/10/18	I'w drefnu fis Mehefin 2015
	Aelod Annibynnol	Linda Vickery	26/09/15	05/03/15	Jacqui Dôll	26/01/2017	I'w gynnal 10/7/2015	Trish Girling	20/12/17	I'w drefnu fis Mehefin 2015
8	Aelod Etholedig	Y Cyng Andy Dunbobbin	15/11/19	Panel 1af 01/15	Y Cyng Jeanette Chamberlain Jones	26/01/2017	17/04/2015	Y Cyng Jeffrey Evans	20/01/19	I'w drefnu fis Mehefin 2015
9	Aelod Etholedig	Y Cyng Lloyd Kenyon	26/09/15	26/11/14	Y Cyng Cheryl Carlisle	26/01/2017	17/04/2015	Y Cyng Mandy Williams-Davies	20/12/17	I'w drefnu fis Mehefin 2015
10	Gweithiwr Cymdeithasol	Hazel Reid	23/06/17	26/11/14	Sarah Halley	26/01/2017	17/04/2015	Sharron Williams-Carter	20/02/15	I'w drefnu fis Mehefin 2015
11	Gweithiwr Cymdeithasol	Helen Smith	27/10/18	14/11/14	Helen Fenner	20/02/2020	17/04/2015	Carolyn Jones	20/12/17	I'w drefnu fis Mehefin 2015
